# ECO'R WYDDFA

RHIF 23 MAWRTH 1978 Pris: 10c

**I holl ddarllenwyr yr Eco**

Cynhelir
CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
nos Iau, Mawrth 9fed am 7.30 p.m.
yn
Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen

*Cofiwch mai eich papur chi ydi o*
*Dowch yn llu!*

# YMWELIAD RHYFEDD

**BOB nos ers tri mis bellach mae gwraig tŷ ym mhentref Llanrug yn methu'n lân â chael gafael ar ei chwsg o ganlyniad i'r hyn a welodd ei gŵr a hithau yn yr awyr nepell o'u cartref.**

**Mae'r stori'n dechrau am tua hanner awr wedi deg ar noson dawel, serog fis Tachwedd diwethaf. 'Roedd Mr. Glyn Roberts, Teras Hermon, newydd gadw'i gar yn ei iard lo ger croesffordd Glan Moelyn pan welodd olau mawr melyn yn yr awyr yn dod o gyfeiriad Llanberis. Ar y cychwyn, yn naturiol ddigon, meddyliodd mai hofrennydd ar ei ffordd yn ôl o'r mynyddoedd i'r Fali ydoedd, ond yn fuan sylweddolodd, gyda pheth ofn, fod y peth yn teithio'n llawer rhy araf i hynny fod yn wir. Yr hyn a anfonodd iasau i lawr ei gefn oedd y ffaith na chlywai sŵn o unrhyw fath.**


Daeth y peth yn agosach gan aros yn llonydd, tua hanner milltir i'r awyr, meddai Mr. Roberts, uwchben Parc Beili. Gwelai rywbeth tebyg i bêl fawr felen a chynffon bigfain y tu ôl iddi. Ar y gynffon yma, a ymddangosai'n dywyll iawn, hyd yn oed ar gefndir tywyll y nos, 'roedd cylchoedd bychain golau (gweler llun).

Ar ôl bod yn yr un safle am tua dau funud trodd y gwrthrych gan symud yr un mor dawel ac araf ag o'r blaen i gyfeiriad Waunfawr a Cheunant. Pan ddiflannodd o olwg Mr. Roberts, brysiodd am adref.

Dywedodd Mrs. Roberts wrth yr *Eco* nad oes llawer o bethau yn cyffroi ei gŵr. "Ond y noson honno", meddai, "pan ddaeth i'r tŷ, 'roedd yn amlwg fod rhywbeth wedi ei ddychryn." Pan aeth y ddau allan i ddrws y tŷ gwelsant fod 'y peth' wedi gwneud un tro mawr unwaith eto am Lanrug. " 'Roedd yn union fel pluen yn symud drwy'r awyr," meddai Mrs. Roberts. Arhosodd yn llonydd unwaith eto mewn safle fyddai uwchben Bryn Llan. Bu yno a rai munudau, a'r tro hwn, oherwydd ei agosrwydd gallai Mr. Roberts weld rhywbeth tebyg i wifrau gloyw ar flaen y bêl felen.



*Mr. a Mrs. Glyn Roberts*




*Dyma lun symliedig a dynnodd Mr. Glyn Roberts yn arbennig ar gyfer yr* Eco, *o'r hyn a welodd. "Profiad a fydd ar fy nghof am byth", meddai.*

Er ei bod wedi dychryn, penderfynodd Mrs. Roberts beidio galw ar gymdoges iddi rhag ofn iddi boeni'n ormodol o weld y gwrthrych. Dyna'r rheswm hefyd pam na ddywedodd yr hanes yn syth wrth ei dwy ferch. Aeth i'r tŷ a ffonio'r heddlu. "Nid oedd y plismon ar ddyletswydd ac ni ddaeth acw," meddai Mrs. Roberts. "Felly, ni oedd yr unig rai, am wn i, i weld y peth 'ma."

Daeth yn fater cyhoeddus pan ddywedodd eu merch yr hanes wrth un o'i hathrawon yn Ysgol Brynrefail ac yn ddiweddar gwnaethpwyd eitem ar y digwyddiad ar raglen radio foreol.

Dywedodd Mrs. Roberts ei bod "yn cael ei denu i'r ffenest bob nos", weithiau o'i chwsg, i chwilio'r awyr am y ffurf rhyfedd a welodd. Nid yw wedi gweld 'y peth' wedyn ond profiad rhyfedd, meddai hi, yw eistedd yn y ffenest ffrynt am oriau i ddisgwyl ymddangosiad arall – a dim rheolaeth ganddi dros y sefyllfa.

Stori Mr. a Mrs. Glyn Roberts yw'r un fwyaf manwl ei disgrifiad i ddod i glyw yr *Eco.* Ond rhaid pwysleisio fod pobl eraill yn y fro wedi cael profiadau tebyg yn y gorffennol, rhai ohonynt wedi gweld ffurfiau tebyg i'r hyn a welodd Mr . a Mrs. Roberts ac eraill wedi gweld pethau tra gwahanol. Mae llawer o sôn hefyd, yn y papurau dyddiol y dyddiau yma am bobl mewn gwahanol rannau o wledydd Prydain yn gweld gwrthrychau anarferol yn yr awyr.

Gwahoddwn chwi, drwy golofnau'r *Eco* i roi eich sylwadau neu i sôn am unrhyw brofiad personol a gawsoch yn y maes diddorol a rhyfedd yma.

# Swyno'r Albert Hall





Cafodd aelodau parti Cân Actol Ysgol Gwaun Gynfi ddiwrnod bythgofiadwy ddydd Sadwrn, Chwefror 25 pan gawsant lwyfan Neuadd Albert Llundain iddynt eu hunain. Ond cafodd y dyrfa fawr o tua 7,000 fwy o wefr wrth wrando ac edrych arnynt hwythau yn perfformio.

Cawn ninnau yn y fro hon gyfle i'w gweld unwaith eto pan ymddangosant ar lwyfan Ysgol Brynrefail ar nos Iau 16 o Fawrth mewn cyngerdd arbennig gan aelodau o Glwb Rygbi newydd yr ysgol.

Yn ymddangos gyda hwy ymhlith artistiaid eraill, a phlant Ysgol Brynrefail bydd Hogia'r Wyddfa. Dyma'r tro cyntaf iddynt hwy berfformio yn y fro ers pum mlynedd. Mis Awst diwethaf y penderfynodd yr Hogia ailgychwyn yn achlysurol ac maent wedi llenwi neuaddau mawr ar hyd a lled Cymru oddi ar hynny.

# ECO'R WYDDFA

RHIF 23 MAWRTH 1979

**Golygydd:**
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 3719*

**Is-olygydd:**
Twrog Jones,
Pros Kairon,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 4051*

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*



Gyda diolch i'r canlynol am eu rhoddion caredig i'r Eco.
£2: Mr. a Mrs. R.J. Williams, Kenya, Llanberis.


## DYSGWYR

Mae Pwyllgor Dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru, Caernarfon a'r Cylch yn cynnal Noson o Gaws a Gwin yn Neuadd Tanybont, Caernarfon, nos Fercher, Mawrth 8ed am 8 o'r gloch. Dangosir ffilm ar hanes yr Eisteddfod a bydd dau ganwr pop Cymraeg enwog yn canu yno. Dyma yw gweithgaredd gyntaf Pwyllgor y Dysgwyr a'r bwriad yw codi hwyl at yr Eisteddfod. Mae croeso cynnes i bawb – y di-Gymraeg a'r Cymry Cymraeg. Dewch i gyd! Pris tocyn yw 50c a gellir eu cael gan:

**Mrs. Bethanne Williams, Disgwylfa Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Mr. Gareth Williams, Yr Hendre, Dolydd, Groeslon (Llanwnda 830 698); Mrs. Gweneirys Jones, Cartrefle, Waunfawr; Mrs. Nona Breese, Drws-y-Coed, Bontnewydd.**

## MUDIAD YSGOLION MEITHRIN ARFON

Nos Iau, 16 Chwefror yng Nghanolfan Penrallt, Caernarfon cynhaliwyd y pedwerydd cwrs dan nawdd Pwyllgor Arfon o'r Mudiad. Croesawyd pawb yno gan Lywydd Arfon, Mrs. Gwenda Davies, Tregarth. Y Wraig Wadd oedd Mrs. Gwennan Owen, Aberystwyth, cynrychiolydd cenedlaethol y Mudiad, a thestun ei sgwrs oedd "Offer o Ddim" Cafwyd arddangosfa ganddi o bethau defnyddiol dros ben i'w gwneud – o focsys matsys i focsys cardbord mawr. Gwelsom bopty a dresel bwrpasol iawn i'r 'Tŷ Bach Twt', a gostiodd ond rhan fechan o'r hyn a delir yn y siopau amdanynt. Dywedodd Mrs. Owen fod pob offer yn yr Ysgol Feithrin yn degan addysgiadol – waeth beth yw ei ddeunydd. Gwelsom fod gwerth mewn cadw pob bocs a rholyn o unrhyw fath! Diolchwyd i Mrs. Owen am noson ddefnyddiol iawn gan Mrs. Janet Williams o Gylch Bethesda a pharatowyd paned o de gan Gylch y Groeslon. Penderfynwyd cynnal Gweithdy i wneud rhai o'r teganau yma "o ddim" yn ystod mis Mai.

# LLYTHYRAU

*Annwyl Olygydd,*

*Y CWCH LLECHI*

*Yn eich adroddiad am y cwch llechi a godwyd o'r llyn dywedwch: "nid oes cofnod o'r cwchddrylliad i gael yn unman, ac felly ni all yr arbenigwyr ond dyfalu beth a ddigwyddodd yn union". Dywed William Williams yn ei* **Hynafiaethau a Thraddodiadau Plwyf Llanberis ar Amgylchoedd** *a gyhoeddwyd yn 1892: "nid bob amser y gellid mordwyo'r llyn heb gyfarfod â damweiniau galarus. Bu felly aml i dro gyda chludwyr y llechi ar rhai o fordwyant wrth fyned a dyfod at eu gorchwylion. Dywedir am un morwr a'i ferch wrth gludo llechi pan ar ganol y llyn y suddasant fel carreg i'r dyfnder, ac nis gwelwyd hwy mwyach. Gŵr hyf oedd ef, ebe'r hanes; er fod y dydd yn un gerwin, yn hytrach nag ufuddhau i wahoddiadau amryw o'r lan, dyma ddywedai ef: "Nid oes digon o ddwfr mewn cragen fel llyn Llanberis i'm boddi i", ac ymaith ag ef yn ei afiaeth ynfyd. Buan y deallodd ei gamsyniad."*

*Â William Williams ymlaen i ddweud: "Yn Goleuad Cymru am 1822, pan gyda'r un gorchwyl, dywedir i un Hugh Roberts, Llanrug foddi, ac o'r braidd y diangodd Griffith Owen, a'i fab, rhag yr un aflwydd." Tybed mai un o'r ddau gwch hyn ydyw'r cwch a godwyd? 'Rwyf yn rhyw feddwl mai yn Nyddlyfr yr hen Griffith Ellis, oedd yn oruchwyliwr y Chwarel o 1810 hyd ei farwolaeth yn 1860, y cafodd William Williams ei wybodaeth. Ond nid wyf yn sicr. Tybed a oes 'na rywun o blant y gymdogaeth tua Aberystwyth fuasai'n barod i fynd i'r Llyfrgell Genedlaethol i archwilio Goleuad Cymru 1822?*

*Herbert Thomas.*

---

*7 Stryd Turner,*
*Llanberis.*

*Annwyl Mr. Golygydd,*

*Trwy ryw anffawd o gwmpas y Nadolig a'i brysurdeb aeth fy llythyr cynta' ar goll rhywsut.*

*A chan mai llythyr fy nau frawd Arthur Thomas, a David John Thomas ynglŷn â'n tad (yn rhifyn mis Hydref o'r* Eco*) a barodd i mi ysgrifennu, hwyrach bydd mwy o lwc ynglŷn â hwn!*

*Roeddwn innau wrth fy modd gweld Mrs. Mary Lloyd Williams wedi sôn am ein tad, R.O. Thomas Dinorwig yn ennill y "Challenge Solo" ym Mhafiliwn Caernarfon ym 1920. Un o hogia Bwlch Gwynt oedd, a byddent i gyd yn mwynhau cerddoriaeth. Edrychwn i fyny ar fy nhad, gan ei addoli bron; fi oedd ei unig ferch wrth gwrs, a chawn lawer o sylw ganddo.*

*Diolch o galon i Mrs. Williams am ddod â'r hen amser hapus yn ôl i'm meddwl.*

*Yn gywir,*
*Eluned Rowlands.*

**O.N.** *Carwn hefyd ddiolch i bentrefwyr Llanberis a'm cydweithwyr, ac yn arbennig i Yvonne am eu caredigrwydd i mi yn fy ngwaeledd yn ystod mis Medi.*


## Gŵyl Basg Adfer

**MAWRTH 30 – EBRILL 1**
**CANOLFAN CYMDEITHASOL DINORWIG**

**Nos Iau, Mawrth 30 – 7.30**
**YMRYSON Y BEIRDD**
**Timau: Llais Ogwan, Lleu ac Eco'r Wyddfa**
**Tarian Adfer Bro Chwareli**

**Pnawn Gwener, Mawrth 31 am 2.00**
**GÊM BÊL-DROED – Cae Penisarwaun**

**Nos Wener, Mawrth 31 am 7.30**
**NOSON LAWEN**
**Doniau Bro Dinorwig a'r Cylch**
**Tecwyn Ifan**
**Glyn Williams**

**Bore Sadwrn, Ebrill 1 am 10.00**
**TAITH NABOD BRO (Cychwyn o'r Ganolfan)**

**Pnawn Sadwrn, am 3.00**
**CYFARFOD CYFFREDINOL i'r aelodau**

**Nos Sadwrn, am 7.30**
**DAWNS**


*Annwyl Olygydd,*

*Gan i John Evans, Clwt-y-bont lunio cerdd mor gywrain i mi ar fy ymddeoliad, a gaf fi roddi fy fersiwn fy hunan o'r digwyddiad?*

**YMDDEOLIAD**

**Bûm am flynyddoedd meithion**
**Yn crwydro lonydd Arfon,**
**O'r priffyrdd llyfn i'r gulffordd fach**
**Gan gadw'n iach a bodlon.**
**Bu'n amser caled weithian,**
**Ac eto'n hynod ddiddan,**
**A stŵr a miri hyd y ffyrdd**
**A myrdd o droeon trwstan.**
**'Roedd crinddail Hydref beunydd**
**Yn disgyn yn gawodydd**
**Pan ar fy hynt dechreuais i**
**I rodio'n ffri y gwaunydd.**
**A hel y dail a'u tocio**
**Y bûm ar hyd yr henfro,**
**A thorri'r hen fieri arch**
**Na deimlent barch i'm heiddo.**
**Ond Gaeaf ddaeth yn sydyn,**
**A gwynt a glaw i'w ganlyn;**
**Y ffos yn ddu a llawn o ddŵr**
**A stŵr y gwynt diderfyn.**
**Ac ambell gwter ddiflas**
**A'i chwymp yn bur anaddas,**
**Trybaeddu yn y mwd a'r baw,**
**A'r glaw yn lluwch o'n cwmpas.**
**Ac yna'r rhew a'r eira**
**Yn troi y ffyrdd yn dagfa,**
**A lluchio gro a llwch ymhell**
**I geisio gwell tramwyfa;**
**Neu chwalu'r eira lluwchiog**
**I wneuthur llwybrau troellog**
**A dim cyfnerthiad gwell i'm llaw**
**Na rhaw a min'y matog.**
**Ond daeth y Gwanwyn hyfryd**
**Yn irlas trwy y gweryd,**
**A llon eu llef oedd côr y wig**
**A miwsig lenwai 'mywyd.**
**Daeth hyrddwynt Mawrth bryd hynny**
**A'r ffyrdd i gyd yn sychu,**
**Ond llwch a llaid yn llond fy ffroen**
**Ddiddymai'r hoen, a'm mygu.**
**Ond wedi'r gwynt fynd heibio**
**Daeth egwyl braf i dwtio,**
**Gan agor ffos a chodi clawdd,**
**A'r ochrau'n hawdd i'w seidio.**
**A'r Haf a'i des yn danbaid,**
**A'r chwys yn llenwi'm llygaid**
**Wrth daenu graean ar dar du**
**Rhag glynu'r ddianghenraid.**
**A thorri'r ochrau beunydd,**
**O fore glân hyd nawnddydd,**
**A moli awch y cryman llym**
**A'i rym wrth drin y prysgwydd;**
**Neu wrando'i siffrwd cyndyn**
**Wrth lorio'r gwair a'r rhedyn,**
**A cholli min trwy drawiad teg**
**Â charreg neu hen wreiddyn:**
**Ail-hogi ar ôl tuchan,**
**A throi y dur yn arian,**
**Gorchestu yn yr arfod lân**
**A droesai'n gân y cyfan.**
**Cael 'paned yn ei hamser**
**Wrth ymyl gwrych neu gwter,**
**'Doedd ond y nef yn gysgod im**
**A dim ar dywydd afler.**
**Ond daeth yn Hydref eto**
**A blwyddyn wedi treiglo**
**Ail-ddechrau gyda'r brwsh a'r rhaw**
**I hel y baw a'i glirio.**
**Fel yna'r symud dyddiol,**
**Y gwaith yn wir amrywiol;**
**Ni raid i neb syrffedu'n rhwydd**
**Mewn swydd mor gyfnewidiol.**
**Y dyddiau ddiflanasant,**
**Blynyddoedd ni ddychwelant,**
**A dyma fi heb boen na chur**
**Yn segur yn fy seibiant.**
**Yr arfau rydant bellach,**
**A'r ardal sydd yn flerach,**
**Ond wiw i neb fy meio i**
**Myfi yw'r mistar mwyach.**

**Idris Owen,**
**Minffordd,**
**Penisarwaun.**

# LLANRUG

**Y CARNIFAL** – Cynhaliwyd Pwyllgor y Carnifal ddiwedd y mis i gwblhau gwaith y flwyddyn 1977, a chyfrannwyd rhan o'r elw oedd yn weddill i'r canlynol: Clwb Snwcer Llanrug: £20; Ysgol Pendalar, Caernarfon: £10; Cronfa Rigarug: £10. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth, Mawrth 7 am hanner awr wedi saith. Erfynnir am gefnogaeth deilwng o'r ardal os am sicrhau Carnifal 1978. Pe byddai pob Cymdeithas a Chlwb a dderbyniodd gyfraniad yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn anfon dau neu dri cynrychiolydd, byddai'n rhwyddach cynnal Carnifal llewyrchus. Prif amcan yr Wythnos Garnifal yw sicrhau Gwledd Nadolig i'r henoed.

**CLWB BLODAU'R GRUG** – Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Iau, Mawth 9 yn y Sefydliad Coffa ac fe fydd gŵr gwadd i annerch.

**DOSBARTHIADAU CONFFIRMASIWN** – Y mae dosbarthiadau gogyfer â'r Conffirmasiwn ym mis Mehefin wedi dechrau. Bydd ei Ras Archesgob Cymru yn ymweld â'r plwyf ym mis Mehefin i weinyddu'r Sacrament yma. Bydd dosbarth i oedolion yn dechrau cyn Gŵyl y Pasg.

**CYMDEITHAS LENYDDOL, Y CAPEL MAWR** – Cafwyd noson fendithiol iawn o dan arweiniad Mr. Ieuan Ellis Owen, Ll.B., Y Ffôr – un o blant y Capel Mawr a mab Mr. a Mrs. W. Ellis Owen, Bryn Maen. Cyflwynodd Mr. Owen ddisgrifiad byw a chartrefol inni o'i waith fel cyfreithiwr. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r siaradwr a chafwyd trafodaeth fuddiol iawn. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr. Iolo Llywelyn, M.A., Pantafon Bach. Diolchwyd gan y Parch. W.O. Roberts a Miss L.M. Hughes, Ganllwyd.

**MERCHED Y WAWR** – Cyfarfu'r gangen yn y Sefydliad Coffa, nos Fawrth, Chwefror 14, gyda Mrs. Nansi Lovatt yn y gadair. Yn absenoldeb y siaradwr gwadd rhoddwyd sgwrs gan Mr. Idwal Williams ar Nigeria. Diolchwyd iddo gan Mrs. Inigo Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth o fis Mawrth yn yr Ysgol Gynradd pan fydd yr aelodau yn cymryd rhan ar ffurf Brethyn Cartref. Darperir lluniaeth. Diolchwyd i'r gwestwragedd gan Mrs. Mary Lloyd Williams.

**GWELLHAD BUAN** – Bu Mrs. Jane Williams, Bryn Eifion yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.

**NEWYDDION Y SEINDORF** – Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ddod yn bumed allan o un ar bymtheg mewn cystadleuaeth yn Bolton ar Chwefror 19. Dim ond pedwar marc oedd rhyngddynt a'r cyntaf. Maent yn cystadlu yn Pontins, Prestatyn ar y 24 o Fawrth. Pob lwc iddynt.

Cynhelir 'Noson Gaws a Gwin' yn y Cwt Band nos Fawrth, Ebrill 4ydd a cheir adloniant gan aelodau o Barti Eryri.

**YM MHLAS HEDD, BANGOR** – Deallwn fod Mrs. Mabel Owen wedi cael ei symud i Blas Hedd, Maesgeirchen, Bangor a'i bod wedi gwella'n lled dda erbyn hyn. Anfonwn ein cofion ati a gobeithiwn ei gweld o bryd i'w gilydd.

**UNDEB Y MAMAU** – Cynhaliwyd gwasanaeth Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Mihangel ar Ŵyl Fair y Canhwyllau, Chwefror 2il. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor a rhoddwyd yr anerchiad gan y Parch. Jeffrey Hughes, Curad Caernarfon. Thema ei anerchiad oedd pwysigrwydd yr Ŵyl arbennig hon i'r Eglwys ac eglurodd rai o'i hen arferion ym mywyd crefyddol a bydol y genedl. Trefnwyd lluniaeth ysgafn yn y Rheithordy gan Mrs. D. Pierce, Glan-'rafon. Diolchwyd gan Mrs. Williams, Y Rheithordy.

**SEIAT IEUENCTID** – Nos Fercher, Chwefror 1af yn Festri Capel Mawr, o dan nawdd Cyngor Eglwysi'r Cylch cafwyd seiat fendithiol o dan arweiniad y bobl ieuainc. Gwnaed coffâd dwys ar ddechrau'r Seiat i'r diweddar Mr. Thomas Evans, Lloc gan y Parch. W.O. Roberts a chydymdeimlodd ar ran eglwysi'r ardal â Mrs. Evans a'r teulu yn eu trallod. Trefnwyd y seiat gan Mr. Ifan R. Roberts, Tŷ Capel a chymerwyd rhan mewn gogoneddu Duw a thystiolaethu gan Mr. Arfon Jones, Waunfawr, Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel, Mr. Bryn Williams, Tanygaer, Miss Eleri Williams, Tanygaer ac eraill. Teimlodd pawb oedd yno, yn hen ac ieuainc, iddynt gael bendith, a mynegodd amryw ddymuniad i gael cyfarfod tebyg yn fuan.

**Y GOBEITHLU** – Cafwyd dau gyfarfod. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Anwen Davies, Llwyn, Karen Davies, Dwyfor, Susan Jones, Nant-y-Glyn a Nia Wyn Jones, Wern. Yn y cyfarfod cyntaf dangoswyd dwy ffilm, sef 'Hanes Troedigaeth Saul o Darsus' a 'Gwraig i'w Chofio' gan Mrs. W.O. Roberts, gyda Mr. John Williams, Gweledfa yn gofalu am y taflunydd. Yn yr ail gyfarfod, cymerwyd rhan gan y plant mewn canu ac adrodd, yn unigolion a phartion. Hyfforddwyd hwy yn nhonau'r Detholiad gan Mrs. Mair Jones, Ogwen, a hi oedd yn cyfeilio yn y ddau gyfarfod. Llywyddwyd gan y Gweinidog.

**GENI** – Ganwyd dwy ferch yn y pentref: Sharon, merch Mr. a Mrs. Edwin Jones, 19 Bro Rhythallt a Catrin Angharad, merch Mr. a Mrs. Dylan Hughes, 2 Tai Crawia. Llongyfarchiadau i'r rhieni.

**MARWOLAETH** – Dydd Sul, Ionawr 29, bu farw Mr. Thomas Evans, Lloc, 12 Ffordd Glanffynnon. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Mrs. Evans, y mab a'r teulu oll.

**CYDYMDEIMLAD** – Ein cydymdeimlad llwyraf â Mr. a Mrs. Roberts, Ceris, ar farwolaeth mam Mr. Roberts.

**Y GYMDEITHAS UNDEBOL** – Nos Fawrth, Chwefror 21, y siaradwr gwadd oedd Mr. John Evans, Clwt-y-bont. Ei destun oedd 'Hanes Bro'r Chwarel'. Diolchwyd iddo gan Mr. T.W. Thomas, a Mr. Emrys Owen. Y Llywydd oedd Mr. Ifor Williams, Gwelfryn.

**LLONGYFARCHIADAU** – I Mr. Leonard Hughes, mab hynaf Mr. a Mrs. William Hughes, 3 Bryn Afon ar achlysur ei briodas â Miss Lindsay Ann Hammond, Portsmouth. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn Chesterfield.

**MARWOLAETH** – Nos Fawrth, Chwefror 21, yn frawychus o sydyn, bu farw Mrs. Megan Jones, 20 Glanffynnon, gwraig y diweddar Mr. Griff Jones (gynt o Isallt, Deiniolen), mam Gwenda a John, a mam-yng-nghyfraith David. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu profedigaeth.

**LLONGYFARCHIADAU** – I Gwyndaf Owen, mab Mr. a Mrs. Edward Owen, Ferndale, Ffordd Glanffynnon a Glenda Ann Hughes, merch Mr. a Mrs. Kyffin P. Hughes, 49 Dôl Elidir, Llanberis, ar achlysur eu dyweddïad ar ddiwrnod Sant Ffolant. Dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

**BRYSIWCH WELLA** – yw ein dymuniad i Mrs. G. Williams, 17 Bro Rhythallt sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

**PLAID CYMRU** – Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Cangen Plaid Cymru, nos Fercher Chwefror 22. Mynegwyd syndod bod y Toriaid yn y Senedd ynghyd â rhai aelodau Llafur wedi pleidleisio yn erbyn polisi'r Llywodraeth ar ddatganoli. Bydd cynnig newydd yn golygu bod perchnogion Tai Haf, pobl i ffwrdd ar wyliau neu fusnes, pobl wael heb bleidlais bost a hyd yn oed y meirw yn cael eu cyfrif yn erbyn cynnig y Llywodraeth mewn refferendwm.

Trefnwyd rhaglen ar gyfer y misoedd nesaf.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mena a Clwyd Ellis, y Rhyl ar enedigaeth merch fach, Nia Clwyd Ellis. Mae gan y fam (Mena Pritchard gynt) gysylltiad â'r fro. Magwyd Mena yn Llanrug.

## EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



*Julie Leatherbarrow gafodd y mwyaf o farciau yn nosbarthiadau 1, 2 a 3.*



*Dewi Williams – y mwyaf o farciau yn nosbarthiadau 4, 5 a 6.*

# CWM-Y-GLO

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mrs. Sheila Seyd, Bwlch Cottage ar ennill gradd B.A. y Brifysgol Agored mewn Dyneiddiaeth. Mae'n bwnc eang, ac o'r herwydd wedi golygu cryn ddyfalbarhad. Llawenhawn yn ei llwyddiant gan ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i blant a phobl ifanc y Cwm a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

Hefyd Mr. a Mrs. Green, Groeslon ar enedigaeth mab, John – brawd i Carl a Sharon.

**GWELLHAD BUAN** – Dyna yw ein dymuniad i'r rhai canlynol : Miss Blodwen Williams, Afallon, sydd wedi bod yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor dros dro. Mrs. Evans, Arosfa, a dderbyniodd beth anaf mewn damwain yn ei chartref. Mr. Arthur Vaughan Williams, Mona, a Mr. Aled Evans, Tŷ Newydd, y ddau wedi bod yn analluog i weithio ers peth amser.

Da gennym ddeall fod amryw eraill yn gwella'n foddhaol, yn cynnwys Barry, bachgen bach Mr. a Mrs. R. Hughes, 10 Dolafon, a gafodd ddamwain ar y ffordd.

**DYWEDDIAD** – Dymuniadau da'r pentref i Irene Vaughan, unig ferch Mr. a Mrs. Arthur Vaughan Williams, Mona, ar ei dyweddïad â Steven Charles, mab Mr. a Mrs. A. Price, Rochdale.

**CYDYMDEIMLO** – Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Len Parry, Hebron a'r teulu ar farwolaeth modryb Mr. Parry ym Mrynrefail.

Hefyd â Mr. a Mrs. Evans, Arosfa, Craig y Don ar farwolaeth chwaer Mrs. Evans yn Birmingham.

**UNDEB Y MAMAU** – Bu Gwasanaeth y Cymun Bendigaid i Aelodau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Gabriel yn ddiweddar. Y Rheithor a weinyddai ac fe ganwyd yr organ gan Miss C. Hughes.

**DOSBARTHIADAU CONFFIRMASIWN** – Eisoes y mae dosbarthiadau ar gyfer y Conffirmasiwn yn Llanrug ym mis Mehefin wedi dechrau. Os oes rhywun neu rywrai yn awyddus i gael eu conffirmio, dyma'r adeg i ymuno.

**CYSTADLEUAETH Y MIS**

**Llunio brawddeg o ugain gair gyda phob gair yn dechrau â'r llythyren "D". Mae'n bosibl. Y cynnig cyntaf a ddaw allan o'r het i ennill £1. Gyrrwch eich cynigion ynghyd â'ch enwau a'ch cyfeiriad i : *Mr. E.O.Thomas, 15 Ffordd Tŷ Du, Llanberis.* Diffoddwch yr hen deledu 'na, a meddyliwch, da chi !**


**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE**
**Cwm-y-glo**

**Ffôn : LLANBERIS 814**
**GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR**

# LLANBERIS

**CRONFA EISTEDDFOD 1979** — Enillydd raffl Ionawr oedd Mrs. Carrie Hughes, Padarn Road. Daeth y raffl ag elw o £27.75. Fe dynnir raffl Chwefror yn y Noson o Gawl a Chân ar Fawrth y 4ydd. Gwnaethpwyd elw o £24.32 gyda'r Bingo a gynhaliwyd ar Chwefror 10. Diolch i Mr. Richard Jones am ofalu am y noson ac i'r canlynol am eu rhoddion: Mrs. Davies, Garej, Tin Bisgedi; Miss Nerys Huws, Rhes y Faenol: £1; Mrs. Siân Thomas, Foelas, Fas; Mrs. Gwyneth Jones, 2 Dôl Elidir: 70c; Mr. Richard Jones: £1; Mrs. Nerys Roberts, Fflat uwchben y Cigydd: 80c; Miss Ann Evans, Siop Anrhegion: Talc a Phersawr; Mr. Cledwyn Jones, Stryd Goodman: Toast Rack; Mr. Gwynfor Williams, Stryd Newton: Llefrith; Mrs. Annie Jones, Min Afon Terrace: Siwgr; Bocs o Siocled; Miss Jane Morris, 44 Dôl Elidir: Sachad o Datwr; Mrs. Marie Evans, Siop Anrhegion: 5 pâr o 'tights' a Bocs o Ffrwythau.

Diolch i Adran II yr Urdd am gasglu mwy na £50 tuag at y Gronfa drwy fynd ar Daith Gerdded Noddedig ar Chwefror 18. Nos Wener, Mawrth 10 bydd Disco yn y Ganolfan yng nghwmni Disco 007 o Fethel. Plant Ysgol Dolbadarn yn unig o 7 tan 9 o'r gloch, a phlant hŷn o 8.30 tan 10.30. Nos Fawrth, Mawrth 14 bydd noson o Wau Noddedig yn yr Erw Fair i ddechrau am 7.30. Croeso i unrhyw un ddod yno i wau. Dowch â gwaell Rhif 8 ac edafedd 'Double Knitting' gyda chwi. Byddwch yn siŵr o gael hwyl, ond cofiwch gael rhai i noddi faint o sgwariau y gallwch wau mewn dwy awr. Gobeithir cael digon o sgwariau i wneud cwilt gwely ac y gallwn ei roi ar raffl ym mis Ebrill. Bydd Noson Lawen ym mis Ebrill, ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf. Ym mis Mai cynhelir Ffair Wanwyn. Mae'r canlynol yn gyfrifol am wahanol stondinau: Teisennau: Mrs. Enid Jones, Delfryn a Mrs. Helen Morris, Oakfield, Ffordd Capel Coch; Bwyd: Mrs. Vera Griffith, Llwyn Piod a Mrs. Lowri Thomas, 13 Ffordd Ty Du; Eliffant Gwyn: Miss Gwyneth Parry a Mrs. Maureen Lennon, Plas Tirion; Llyfrau a Chomics: Mrs. Enfys Parry, Noddfa a Mrs. Beryl Lewis, Cilan, Ffordd Fawr; Gwaith Llaw: Mrs. Nerys Roberts, Fflat Siop y Cigydd a Mrs. Lloyd, Siop Rosalind; Planhigion: Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir neu'r Ysgol; Poteli: Mrs. Gwyneth Jones, 2 Dôl Elidir a Mrs. Brenda Parry, Stryd Ianci; Cynnyrch Cartre: Mrs. Davies, Garej; Mrs. Marie Evans a Miss Ann Evans, Siop Anrhegion a Fferins. Os gallwch gyfrannu mewn unrhyw ffordd byddai'r merched a enwir uchod yn ddiolchgar o dderbyn addewidion a rhoddion, neu eu rhoi yn Siop Trefor neu'r Siop Anrhegion.

I gyrraedd y targed mae'n ofynnol inni gasglu £200 y mis, felly penderfynwyd sefydlu Clwb 300. Y bwriad yw i 300 o bobl gyfrannu 50c y mis neu £6 y flwyddyn i'r Clwb, a phob mis rhoddir gwobrau o £25 a £10 i'r rhai gyda rhifau lwcus. Mis Rhagfyr bydd gwobrau ychwanegol. Aiff y gweddill o'r arian i'r Gronfa Leol, a dylai'r cyfanswm o hyn i'r Eisteddfod fod yn un sylweddol tuag at darged y pentref. Dymunir ar i unrhyw un sy'n dymuno ymaelodi gysylltu â: Mr. John G. Williams, Eirianfa, Ffordd Capel Coch (Ffon: Padarn 254); Mr. Cledwyn Jones, 40 Stryd Goodman (Padarn: 496); Mr. Alwyn Thomas, Foelas, Stryd Newton (Ffôn: Llanberis 220 ); Mrs. Beryl Lewis, Cilan, Stryd Fawr, Snowdon Gift Shop; Miss Jane Morris, 44 Dôl Elidir cyn gynted ag sydd bosibl. Bydd y 'draw' gyntaf yn niwedd mis Ebrill pryd y gobeithir y bydd yr aelodaeth yn gyflawn. Diolch ichwi am eich cefnogaeth. 'Rydym wedi cael casglyddion i fynd o amgylch y pentref i gyd oddeutu Maes Padarn. Tybed a oes 4 neu 5 o wirfoddolwyr yn fodlon i ymgymeryd â'r gwaith? Mae'r Gronfa ar hyn o bryd yn sefyll o gwmpas £480. A wnewch chi ddod i gysylltiad â Miss Jane Morris? Bydd y Pwyllgor nesaf yn Festri Gorffwysfa nos Iau, Mawrth 23 am 7.30.

**YSGOL DOLBADARN** — Yn ystod y dyddiau nesaf bydd timau Pêl-rwyd a Phêl-droed 5 bob ochr, Adran yr Urdd yn cystadlu yn rowndiau cyn-derfynol, Chwaraeon y Sir. Bydd y genethod yn chwarae yn erbyn Ysgol Bontnewydd a'r bechgyn yn erbyn Ysgol Llangybi. Pob lwc iddynt!

**MARWOLAETH** — Trist oedd clywed ddechrau'r mis am farwolaeth Miss Emily Louise Davies, Tan-y-Bryn, Stryd Newton yn 88 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'i chwiorydd a'r teulu oll.

**BATHODYNAU NOFIO** — Dydd Sadwrn, 10 Chwefror bu pedwar o blant y pentref yn llwyddiannus iawn i ennill bathodynau am nofio ym Mhwll Nofio Bangor.

Cafodd Dylan Ellis Thomas, 13 Ffordd Tŷ Du ac Ioan Jones, 2 Llainwen Isaf, fathodyn yr un am nofio 50 medr, a Ffion ac Iestyn Jones, 2 Llainwen Isaf, fathodyn yr un am nofio 20 medr. Daliwch ati blant!

**DAMWAIN** — Drwg oedd gennym glywed am ddamwain Mr. Huw Peris Pritchard, Birmingham House. Gobeithio y byddwch allan ac o gwmpas yn fuan Mr. Pritchard.

**LLONGYFARCHION** — Dymunwn longyfarch holl blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

**PLAID CYMRU** — Nos Fercher, Chwefror 8, cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus yn Festri Gorffwysfa gan Barti Merched Carmel.

**GWAELEDD** — Deallwn fod amryw o bobl y pentref yn cwyno; dymunwn wellhad buan iddynt oll.

**ADRAN YR URDD 11+** — Dymuna'r Arweinyddion ddiolch yn fawr iawn i drigolion y pentref am gefnogi y Ffair Sborion a gynhaliwyd nos Wener, Chwefror 17. Gwnaethpwyd elw o dros £49. Bydd yr aelodau yn mynd i Ganolfan Chwaraeon Llangefni ar Fai 5.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Miss Mona Jean Lewis, Cilan, Stryd Fawr ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar Fawrth 13.

**DYWEDDIO** — Llongyfarchiadau i Miss Glenda Ann Hughes, 49 Dôl Elidir ar ei dyweddïad â Mr. Gwyndaf Owen, Ferndale, Glanffynnon, Llanrug.

**MARWOLAETH** — Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs. Annie Griffith, 79 Maes Padarn yn 88 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'i mab Hugh, 29 Dôl Elidir a'i thair merch sy'n byw yn Lloegr. Hefyd â'i chwaer Mrs. Catherine Ellin Thomas, Maes Padarn a'r teulu oll.

**ENNILL CWPAN SIALENS** — Yr enillydd am y flwyddyn 1976–77 yng nghystadleuaeth i'r Seindorf Ieuenctid oedd Dilys Wyn Jones, 27 Dôl Elidir. Yr ail oedd David Owen, 2 Rhes Efrog ac yn gydradd drydydd oedd Iwan Pritchard, Nant Peris a Maldwyn Lewis. Rhoddwyd y gwpan gan Mr. J. Thomas, Caernarfon. Y beirniaid oedd Mr. Meirion Jones a Mr. Irfon Morris, o Seindorf Deiniolen.

**CYDYMDEIMLO** — Cydymdeimlwn â Mr. Alun Roberts, Rhes y Vaynol ar farwolaeth ei chwaer yn Llanfaglan.

**BABI NEWYDD** — Llongyfarchion i Gareth a Christine ar gael mab a gwneud Mrs. Katie Roberts, Stryd Turner yn hen nain. Mae Gareth a Christine yn trigo yn 12 Llainwen Isaf.

# Maes y Merched

gan Rhiannon James

## "MEWN PENBLETH?"

**Cwestiwn: A oes angen caniatâd swyddogol i osod ffens o flaen y tŷ, rhwng yr ardd ffrynt a'r pafin?**

**Ateb:** A bod yn fanwl gywir, oes mae angen caniatâd os bydd yn uwch na phedair troedfedd. Os nad yw'n gwynebu'r pafin gallwch godi ffens hyd saith troedfedd heb ganiatâd. Gall eich cymdogion wrthwynebu wrth gwrs.

**Cwestiwn: Prynasom ddresel o goed pîn flwyddyn yn ôl ac erbyn hyn mae'r coed wedi warpio a'r droriau yn anodd iawn i'w cau a'u hagor. Beth ellir ei wneud?**

**Ateb:** Efallai fod effaith gwres canolog wedi achosi i'r coed chwyddo. Yn gyntaf, cymerwch amser i archwilio lle yn union mae'r drôr yn dal. Defnyddiwch wedyn olew olewydd, neu bapur sandio neu yn olaf (ac yn ofalus!) blaen fel Surform neu Trimmatsol. Os ydych wedi disgyn erioed ar eich cefn a drôr ar eich glin, fe wyddoch beth 'dwi'n feddwl!

**Cwestiwn: Darllenais yn ddiweddar y gall 25% o'r arian a wariwn ar gynhesu ein tai gael ei golli drwy'r to. Ydi hyn yn wir; beth a allwn ei wneud i gael gwerth ein harian?**

**Ateb:** Os na fuoch erioed yn prowla yn yr atig, ewch ati heno nesa! Dylai fod gennych flanced dew rhwng bob coedyn (joist) yn yr atig i arbed colli gwres. Tair modfedd o drwch a awgrymir gan y llywodraeth ac mae'r trwch yma yn werth ei gael (gall gostio rhwng £35 a £50 i atig tŷ tair llofft).

**Byddwch yn ofalus i sefyll ar y coed yn unig – gall eich coes fynd drwodd i nenfwd y llofft yn hawdd iawn.*

**Cwestiwn: Mae gennyf blanhigyn rwber cryf ac iach, ond yn ddiweddar mae ymylon ei ddail yn brownio ac mae'n edrych yn ddigalon! Beth alla' i wneud i'w achub?**

**Ateb:** Efallai ein bod yn anghofio yn y gaeaf fod ein planhigion tŷ angen aer, dŵr, bwyd a chynhesrwydd fel ni ein hunain. Tybed a fu ymylon y dail yn cyffwrdd ffenestr dros nos rewllyd? Rhowch ddŵr cynnes a hylif maethlon iddo ac ewch ati i lanhau ei ddail gyda chŵyr (wax) arbennig. Fydd o ddim yr un!

## EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



*Eilian – y Côr 4 llais buddugol*


**10%** oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

**E.WILSON HUGHES**
**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**

*Ffôn: Llanberis 491*

**MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD**

# UNIGRWYDD

**DIM Y 4YDD TRO ANWEN!**

**Anwen Jones, merch Mr. a Mrs. Leslie Jones, Meillionydd, Penisarwaun enillodd y gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail eleni.**

**Y mae Anwen yn 18 oed ac yn ddisgybl yn yr ail flwyddyn o'r chweched dosbarth, ac yr oedd wedi dod yn ail yn y gystadleuaeth am y gadair dair gwaith o'r blaen.**

I ennill y gadair bu'n rhaid iddi ysgrifennu stori fer ar y testun 'Unigrwydd' a chyfansoddi cerdd ar y testun 'Dagrau'. Cafodd y stori fer ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniad Mr. Wil Lewis, Amlwch. Clodforodd gynildeb ei hysgrifennu yn ei feirniadaeth, fel y gellwch farnu eich hunain.



**'UNIGRWYDD'**

**Lliw Haul**

**Ni wyddai Tomos yn iawn eto beth a gâi ei brynu yn anrheg penblwydd i Doris ei wraig. 'Roedd eisiau prynu rhywbeth gwerthfawr iddi, rhywbeth a fuasai'n dangos maint ei gariad mawr tuag ati. 'Roedd blwyddyn gyfan o briodas wedi mynd heibio, ac yntau'n ei charu'n fwy ac yn fwy fel yr âi'r amser heibio... O'r annwyl! Beth a gâi ei brynu iddi?**

Cerddodd ar hyd y stryd â'i ben i lawr, a'i feddwl yn troi o amgylch Doris. Yn anymwybodol iddo'i hun, cerddodd i mewn i siop emau ar gongl y stryd. Efallai fod rhywbeth yma a fuasai'n gwneud iddi:

*"Excuse me sir, but can I help you?"*

Sylweddolodd fod y ddynes dew yr ochr draw i'r cownter yn ei holi, ac yn sydyn, teimlodd y gwres yn codi i'w wyneb. Onid oedd gan Doris ddigon o hen daclau fel locedi a modrwyau?

*"...I... I'm sorry madam, but I... I think I've come to the wrong shop."*

Heb aros i weld wyneb y ddynes, trodd Tomos ar ei sawdl a mynd ymaith. Teimlodd yn chwys oer i gyd ac yn euog o fynd i mewn i'r siop mor awyddus a dod oddi yno mor anghwrtais. Cerddodd yn ei flaen ar hyd yr heol fawr a'i wyneb yn troi yn ôl ac ymlaen i'r dde ac i'r chwith wrth syllu ar y siopau dirifedi. Beth ar y ddaear a allasai ei brynu iddi?

Yn sydyn teimlodd ei hun yn mynd yn erbyn rhywbeth llyfn, meddal ar y stryd. Trodd ei ben i weld mai wedi mynd yn erbyn merch ifanc a chôt ffwr amdani yr ydoedd ac wrth weld y gôt daeth syniad i'w ben. Cofiodd fel yr aeth ef a Doris i swper y banc y Nadolig diwethaf.

" 'Dwi ddim am ddwad i'r parti 'ma hefo chdi eto Tomi".

"Ond pam Doris fach?"

"Ond tydi pawb mor grand yma yn eu silcs a'u cotiau ffwr, a finna yn yr hen ffrog gotwm yma — mor dlawd â llygoden elgwys!"

"Ond 'rwyt ti cyn ddeled â nhw i gyd."

"Nac'dw Tomi, a'r gôt 'ma!..."

"Fe bryna'i gôt ffwr newydd i ti erbyn y Nadolig nesaf."

"Na wnei Tomi."

"Ond 'rwyt ti yn eu hoffi?"

"Ydw, ond..."

Un fel'na oedd Doris. 'Roedd wedi addo prynu côt ffwr iddi felly pam na phrynai un dda iddi hi rwan ar ei phen-blwydd yn dair ar hugain oed? Buasai'n sicr o'i gwerthfawrogi, a gallai ddychmygu gweld ei hwyneb gwritgoch yn disgleirio mewn hapusrwydd ac yn dod ato a rhoi cusan ar ei wyneb...

Ia, côt ffwr a gâi iddi.

Arafodd ei gamau o flaen siop fawr lle 'roedd merch blastig yn y ffenestr yn gwisgo'r gôt ffwr ddelaf a welodd neb erioed. Cerddodd i mewn i'r siop a'i galon yn ei wddf ond sylweddolodd mai siop fwydydd ydoedd. 'Roedd ar fin mynd allan yn siomedig pan welodd arwydd mawr ar y drws *"Ladies Fashions 1st floor.* Gydag ochenaid fawr o ryddhad dringodd y grisiau i'r llawr cyntaf.

'Roedd yno ddillad o bob lliw a llun a chwiliodd yn fanwl am gownter y cotiau ffwr. O'r diwedd fe'i gwelodd, ond gan nad oedd yn deall fawr amdanynt aeth i 'mofyn help y wasanaethferch.

*"Excuse me miss, but I'm looking for a fur coat for my..."*

Trodd y ferch ei phen a sylweddolodd mai merch un o'r gweithwyr oedd gydag ef yn y banc ydoedd...

"O, helo... Mr. Williams ia! Arhoswch chi nawr... côt ffwr ... Mae 'na rai newydd del iawn yn 'fa'ma."

"O helo Janice... côt ffwr?"

"Ie, dyna ddwed'soch chi ynte?"

"Y .. ha ha ... y mae'n ddrwg gennyf, ond mae arnaf ofn eich bod yn camgymryd ... ha ha, mynd yn hen fel finne Janice fach... Wel da boch chi nawr — mae'n rhaid i mi fynd. Cofiwch fi at eich tad. Hwyl!"

Aeth Tomos allan o'r siop cyn gynted ag y gallai. Teimlai'n sâl — yn wan drosto. Cofiodd fel yr arferai ei fam wasgu dillad yn y mangl pan oedd yn fachgen bach. Teimlai'n union fel y dillad hynny yn awr — yn wlyb ac yn llawn cynnwrf pan ddaeth i mewn i'r siop, ac yn llipa a dienaid yn dod oddi yno. Beth ar wyneb y ddaear oedd yn dod drosto? — 'Roedd wedi cerdded allan o'r siop emau ac wedi gwneud mwy o ffŵl eto ohono'i hun yn cerdded o'r siop ddillad. Buasai sôn amdano o gwmpas y dref yn awr. —'Roedd Janice yn digwydd bod yn ferch i un o eallibwyr mwyaf y dref, ac os y dywedai hi ei hanes wrth ei thad, yna fe fyddai pawb yn sôn amdano.

Cerddodd yn ei flaen eto. 'Roedd wedi hen ddiflasu erbyn hyn ar fynd o gwmpas y siopau yn chwilota am anrheg. Fel arfer, dôi Doris gydag ef, yn ei helpu i ddewis anrheg, ond y tro hwn 'roedd pethau'n wahanol, 'roedd yn rhaid iddo ddewis anrheg iddi ei hun...

Beth ar wyneb y ddaear a gâi ei brynu iddi? 'Roedd fel petai'n gwybod ateb i'r cwestiwn hwn ers y dechrau, ond nid oedd arno eisiau prynu blodau iddi. Tusw o rosod cochion — buasai hyn yn gwirioni Doris cystal â dim gan ei bod yn hoff iawn o flodau erioed. 'Roedd rhosod hefyd yn symbol o gariad — o'i gariad ef tuag ati hi.

Ni symudodd Tomos o'r siop tra 'roedd y ferch wrthi'n lapio'r rhosod mewn papur gwyn. Talodd amdanynt yn hollol gwrtais ac aeth oddi yno heb wneud unrhyw ffws. Cyn mynd ar y bws i fynd adref cerddodd o gwmpas y parc yn edmygu'r rhosod — 'roeddynt yn hardd, yn arbennig o hardd, a'u lliw coch yn ei atgoffa o'i bochau cochion hi a'r hapusrwydd ynddynt fel yr hapusrwydd yn Doris.

Nid aeth Tomos i lawr o'r bws o flaen ei dŷ. Aeth i lawr wrth ymyl yr ysgol — yr ysgol lle y gwelodd Doris gyntaf erioed. Cerddodd ar hyd y llwybr o'r ysgol tuag at yr eglwys lle yr oedodd am ennyd, cyn mynd i mewn i'r fynwent fechan oedd wrth ymyl yr eglwys. Cerddodd yn ddistaw rhwng y beddi — fel petai arno ofn i'r meirw ei glywed yn tresbasu. Aeth heibio i fedd ei fam a'i dad, hyd nes dyfod at fedd ieuanc yr olwg a chroes fechan arno. Plygodd i lawr i roi'r rhosod cochion ar fedd Doris.

## EISTEDDFOD LWYDDIANNUS

**Eleni eto cafwyd eisteddfod lwyddiannus yn yr ysgol. Y marciau terfynol yn y gystadleuaeth egniol rhwng y tai oedd: EILIAN: 278½; ELIDIR: 245½; ERYRI: 188½; GWYRFAI: 180½.**

Eilian hefyd oedd y tŷ gyda'r cyfanswm mwyaf o farciau am y 'Gweithgareddau Ymlaen llaw', ac am y 'Gweithgareddau Llwyfan'. TREBL i EILIAN felly gyda'r cefnogwyr yn dathlu'r fuddugoliaeth trwy daflu sawl TEDI MELYN i'r awyr.

Y llywydd eleni oedd un o gynddisgyblion enwoca'r ysgol , Mr. Wilbert Lloyd Roberts, Bangor. Yn ei anerchiad pwysleisiodd mai mwynhau cystadlu, ac nid ennill, oedd y peth pwysig, ac yn sicr gwelwyd hyn yn ystod y noson.

Y beirniaid eleni oedd: Mr, Walter Glyn Davies, Bodedern (Cerdd); Mr. Glyn Owen, Pwllheli (Adrodd); Mr. Wil Lewis, Amlwch (Llên); Paola Sidoli, Prifysgol Bangor (Adrodd Ffrangeg); Mrs. C. Thomas, Caernarfon (Arlunio); Mrs. Morgan Jones, Waunfawr (Crefft y Merched).

### CANLYNIADAU'R CADEIRIO

1af: Anwen Jones, Penisarwaun; Cydradd 2il: Nia Bryn Jones, Llanberis ac Emyr Gryffith, Deiniolen; Cydradd 3ydd: Iola Gryffith, Deiniolen a Cai Larsen, Penisarwaun.

Y dasg eleni oedd ysgrifennu stori fer ar 'Unigrwydd' a chyfansoddi cerdd ar y teitl 'Dagrau'. Rhoddodd y beirniad ganmoliaeth uchel i stori fer Anwen ( gweler gyferbyn ) , ac i'r englyn a ddefnyddiodd Emyr i gloi ei gerdd:

**Gwreiddiau anatod gwareiddiad—**
**Y mannau diymwad, mynnwn**
**At ein tir mae'n gwir gariad**
**Brwydr yw yn erbyn brad.**

## MWY O LUNIAU O'R EISTEDDFOD

*Côr Tŷ Buddugol — Gwyrfai*

*Parti Cerdd Dant Buddugol - Eilian*





# Y CHWAREL

Gaerwen, Sir Fôn,
lawer o sôn;
y'n hawlio y clod;
/ fath fynd a dod.

Arfon a Môn;
ıtgof neu dôn,
n hapus a ffri,
pyn o sbri.

euliasom ynghyd,
r hapus ein bryd:
niad corn un,
a'r hen gŷn.

a John gyda'i raw
l a baw:
agdu hen raff,
hopeth yn saff.

nor bwyllog ei law,
c caniad naw,
l Tomos Twt,
în ac yn dwt.

a glywaf uwchben?
es ysgwyd y nen,
ydig is lawr,
ddeiriog o fawr.

ghorffyn yn iach,
d at Bonc Penrhydd Bach;
'rhen Benny a Moss,
n garfan mor glos?

v Tom a'r hen Êl,
Rowlands Clwt – Bêl;
w bach y Cwm,
bwrs bach yn llwm?

y, a Cwil Ynys Wen,
b lwyth ar 'i ben?
anol y baw,
diau, 'rhen law.

au Cae Glas,
trin cerrig bras;
wilym Fachwen,
hoi fy Amen.

Chwarel i gyd,
Braich ar ei hyd:
dd hiwmor a chân,
wrth danllwyth o dân.

lasu ynghyd,
'n aros o hyd;
Moel y Don,
annwyl hon.

*Joni'r Iard*

Mae llawer o Chwarelwyr yn ardaloedd Dinorwig, Deiniolen, Llanberis a holl ardaloedd cylch Caernarfon yn dioddef gyda chlefyd y llwch.

Mae ein haelod seneddol, Dafydd Wigley, yn ymladd yn galed am yr iawndal i'r dynion hyn. Nid yw wedi ennill y frwydr yn gyfangwbl eto, ond 'rwyf yn meddwl y cawn weld ffrwyth ei lafur cyn bo hir.

Am hynny, gwnes y gerdd yma i ddiolch i Dafydd.

### DIOLCH I DAFYDD


Mae Arfon heddiw'n deffro
  Mewn diolchiadau mawr
I Wigley yn y Senedd
  Mae'n ymladd yno'n gawr
Ei waith yw dros Chwarelwyr
  A hynny yn ddi-nam
Y dynion sydd yn dioddef
  Ac araf yw eu cam.

Mae gweled hen Chwarelwyr
  Yn cerdded drwy y stryd,
Eu gwynt o hyd yn pallu
  A'r peswch mawr o hyd.
Y dynion a fu unwaith
  Yn dringo'r creigiau glas
Ond heddiw wedi syrthio
  I glefyd ddigon cas.

Ond Wigley sydd yn gweithio
  Yn galed iawn yn wir
A cheisio mae'r Iawnderau
  A'i lais yn ddigon clir.
Fe ddaw y dydd i Dafydd
  Mewn llawnder llawn o wledd
Ac ennill wna i'r dynion
  Yr Iawndal cyn eu bedd.

*Twm Bethel.*

### HEN YSBYTY'R CHWAREL, LLANBERIS



**MAE'N siŵr fod y rhai ohonoch sy'n byw yn Llanberis wedi sylwi fod pethau mawr ar droed yr ochr draw i Lyn Padarn. Dechreuodd Cyngor Sir Gwynedd ar gynllun uchelgeisiol i adnewyddu adeiladau hen ysbyty'r Chwarel, a saif o fewn ffiniau Parc Gwledig Padarn.**

Gobeithir y bydd yr adeilad yn barod erbyn haf 1979. Ynddo fe ddarlunir bywyd Chwarel Dinorwig a phobl a phentref Llanberis.

Mae llawer o wybodaeth eisoes ar gael am dechnegau'r chwarel ond bwriedir arddangos yn ogystal eitemau diddorol am fywyd cymdeithasol a diwylliannol y chwarelwyr.

Os oes gennych luniau neu eitemau yr ydych yn barod i'w benthyca neu unrhyw wybodaeth ddiddorol arall hoffai Cynllunwyr Sir Gwynedd glywed oddi wrthych. Buasai deunydd a hanesion am Chwarel Vivian ac Ysbyty'r Chwarel yn arbennig o ddefnyddiol. Os gallwch helpu sgrifennwch at **Swyddog Cynllunio'r Sir, Maesincla, Caernarfon, neu ffoniwch Caernarfon 4441, Estyniad 4.**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

### Y BWTHYN AR Y BRYN

**JOHN Ellis Jones (Elidirfab) oedd awdur geiriau'r gerdd 'Y Bwthyn ar y Bryn'. Taid Mr. John Elis (Perisfab), Nant Peris oedd Elidirfab. Ganwyd y bardd annwyl a hoff Elidirfab yn y bwthyn a welir heddiw ar y bryn ger Gallt y Foel, Deiniolen. Diweddodd ei oes yn Nant Peris. Prentisiwyd ef yn gerfiwr ar lechau: wedi hynny cafodd swydd o stiward, ac yn olaf pwyswr yn Chwarel Dinorwig.**

Gwnaeth Ellis D. Williams, R.A.M., Bangor gerddoriaeth tu hwnt o swynol ar y gerdd. Gwn y bydd pawb ac yn arbennig Cymry 'dros y môr' yn falch o gael copi o'r gerdd.

**Dwyn mae cof o flaen fy llygaid
Gymru annwyl, fy hen wlad,
Gyda'r ardal deg lle'm ganwyd
Dyma'r Llan, a bedd fy nhad.**

**Dyma'r afon wyllt yn murmur
Ar ei thaith i lawr i'r llyn,
Dyma finnau'n crwydro'i glannau
Tua'r bwthyn ar y bryn.**

**Dyma'r bwthyn gyda'r eiddew
  Yn ymglymu am ei ddrws:
Dyma'r ardd a'r hen gelynnen
  Dyma'r blodau, o mor dlws:
Dyma lais fy mam yn galw
  "Tyrd i'r tŷ, fy machgen gwyn!"
Dyma finnau eto'n blentyn
  Yn y bwthyn ar y bryn.**

**Er i flwyddi fyned heibio
Minnau o fy nghartre' 'mhell,
Aelwyd annwyl fy mhlentyndod,
Caraf di o hyd yn well:
O! fy mam! a gaf ei gweled?
O, a gaf dywedwch hyn –
Afael yn ei llaw a marw,
Yn y bwthyn ar y bryn.**

*Elidirfab.*

### Y PEDWERYDD PENNILL

Beth amser yn ôl bellach dywedodd Perisfab ar y radio ei fod wedi dwad o hyd i lyfr ac iddo weld pedwerydd pennill i'r hen gerdd.

Deallodd fod ei daid, Elidirfab, wedi mynd am dro ymhen blynyddoedd ar ôl cyfansoddi'r gerdd i weld ei hen gatref. Canfu fod y drws wedi ei gloi. Daeth hiraeth llethol drosto a chyfansoddodd y pennill canlynol yng nghanol ei hiraeth y diwrnod hwnnw:

**Ond fy mam sydd wedi marw
Mae yn huno ym medd fy nhad
Obry ym mynwent ddu Macpela
Hunwch, – Hunwch, riant mad.
Cyngor bach ni chaf fi eto,
Cerydd chwaith, mae'm dagrau'n llyn.
Nid oes heddiw neb i'm derbyn
Yn y Bwthyn ar y Bryn.**

*Elidirfab.*

Cafodd Mrs. Williams y symbyliad i ysgrifennu'r golofn hon o'r gwpled a ganlyn:

**"Egyr ffiniau'r gorffennol
A rhoddion aur ddaw yn ôl."**

*Meuryn.*



Y TAD A'R FERCH

Glan Rhyddallt a Mary Lloyd Williams (Mari Lewis Yr Herald Gymraeg) Bu'r ddau yn sgrifennu colofn wythnosol i'r Herald Gymraeg am 30 mlynedd.


AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............

Eric Morris



Bwsiau Arfon
LLANRUG

FFÔN
WAUNFAWR 254

# BETWS GARMON

**WEDI SYMUD** – Mae Mr. a Mrs. Dennis Bound a Karen, Tŷ Coch, wedi symud i fyw ger yr Amwythig (sef cartref Dennis). Gobeithir y byddant yn hapus yn eu cartref newydd.

**PLISMYN** – Dymunir pob dymuniad da i Colin Davies, Plas Nant Lodge a Simon Davies, Castell Cidwm ar eu swyddi newydd. Y ddau wedi dewis ymuno â'r heddlu.

**DAMWAIN** – Da yw deall bod Mrs. A. Edwards, Minffordd yn gwella ar ôl damwain a gafodd a thorri ei braich.

**CINIO BLYNYDDOL YMRYSONFA CŴN DEFAID** – Fe'i cynhaliwyd yn y Snowdonia Park ar 21 Ionawr. Cafwyd noson hwyliog o 'Siôn a Siân' (gan newid partneriaid!) – gydag Elwyn Gruffydd, Cae 'Sgubor yn M.C. Tynnwyd y rafflau gan Mrs. Megan Bound, Tŷ Coch, a'r enillwyr oedd 1. William, Tŷ Coch; 2. Eric Williams, Bro Waun; 3. Iolo Jones, Bryn Tegid.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 79** – Nos Wener, Chwefror 17 mewn Cyfarfod Cyhoeddus yn Festri Capel Salem etholwyd y swyddogion canlynol i Bwyllgor Apêl Lleol Cronfa Eisteddfod Caernarfon 1979; Cadeirydd: Mr. Rhys Williams, Y Llythyrdy; Trysorydd: Mrs. Glenys Williams, Ty'n Weirglodd; Ysgrifennydd: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid. Cynhelir y pwyllgor nesaf am 7.30 yn Festri Capel Salem ar 17 Mawrth. Taer erfynnir am bresenoldeb unrhyw un â diddordeb gan gynnwys o Gaeau Gwynion i Snowdonia Park a hefyd Allt Coed Mawr.

**YN YR YSBYTY** – Dymunir adferiad buan i Mrs. Margaret Dillon, Minafon, sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.



*TRIP POBL IFANC*

*Dosbarth o bobl ifanc o Ysgol Sul Salem, Betws Garmon a welir yn y llun hwn. Ar drip i Gaergybi yr oeddynt gyda Bws Express Rhostryfan, tua'r flwyddyn 1922. O'r chwith i'r dde yn sefyll: W. Jones, Tyddyn Bach, W.R. Griffith, Caeau Gwynion; W. Evans, Trosgol; W.T. Owen, Rhostryfan (y gyrrwr); G. Roberts, Hafod y Wern; yn y bws: W. Williams, Tai Gwyrfai; R. Lewis, Clogwyn; Robt. Owen, Ystrad Uchaf (eu hathro); J.R. Williams, Tai Gwyrfai; J. Jones, Tyddyn Bach; E. Griffith, Caeau Gwynion; R. G. Roberts, Tynys; H. Jones, Tyddyn Bach; R.O. Pritchard, Plas Isa. Pedwar o'r cwmni sy'n fyw heddiw – W. Williams; H. Jones; R.O. Pritchard a W.R. Griffith – a'r olaf yn unig yn dal i fyw yn yr hen ardal.*

## DIOLCH AM BOPETH

Dyma lythyr a anfonwyd i Mr. W.A. Jones, Dalar Deg gan Brif Swyddog Tân Gwynedd ar ôl iddo roi ei wasanaeth o wirfodd yn ystod anghydfod y Gweithwyr Tân, i sicrhau diogelwch pobl Llanrug a'r cylch.

*Annwyl Mr. Jones,*
*Argyfwng Tân – Anghydfod Diwydiannol*
*14/11/77 – 16/1/78*

*Erbyn hyn y mae'r llwch yn dechrau aros ar yr anghydfod uchod, ac y mae'r tân ddiffoddwyr i gyd wedi dechrau gweithio yn ôl, yng Nghaernarfon, a hoffwn roi ar gof a chadw fy ngwerthfawrôgiad mwyaf i chwi ac aelodau o 'Dîm Tân Cymuned Llanrug', am fod yn barod nos a dydd am y cyfnod hir o naw wythnos.*

*Mae'n siŵr fod llawer o 'Gysuron personol' a phethau eraill ynglŷn â chartref wedi gorfod cael eu newid a'u haddasu yn ystod y cyfnod yma er mwyn ffitio i fewn ynglŷn â'r paratoadau erbyn galwadau allan gan Dîm Tân Llanrug.*

*Gallaf eich sicrhau fod darpariaethau 'Tîm Tân Llanrug' er mwyn troi allan, a hefyd eu presenoldeb ymhob achlysur o dân y galwyd arnynt i droi allan, yn derbyn fy nghymeradwyaeth uchaf am waith wedi ei wneud yn dda.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*T. Eric Edwards,*
*Prif Swyddog Tân.*

## COLLI CYN-ATHRAWES YN YR AMERICA



*Tîm Hoci Ysgol Brynrefail 1929 - 30*
*Tynnwyd y llun ychydig cyn i Miss Harry ymddeol – Miss Harry ar y chwith a Miss E.A. Roberts ar y dde.*

**Blin iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs. Gwyneth Williams (Miss Harry gynt) yn Efrog Newydd ar 19 Ionawr. Fe ddaw â llu o atgofion i'r rhai oedd yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail yn y dau-ddegau ac i'w ffrindiau yn yr ardal hon.**

Ganed Miss Harry yn Llangennech, pentre rhwng Llanelli a Phontarddulais, ym 1895. Cafodd ei haddysg yn Llangennech ac yn Ysgol Ramadeg Llanelli. Mae'n debyg mai fel disgybl-athrawes y bu am ddwy flynedd yn Llangennech cyn cael ei derbyn i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, lle y graddiodd (B.Sc.) mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Bu yn dysgu am gyfnod byr yn Ysgol Ramadeg Aberaeron cyn iddi ymuno â staff Ysgol Brynrefail ym 1921 pan oedd Mr. J.R. Foster yn brifathro. Dysgai fathemateg a mecaneg tan fis Ebrill 1930 pan aeth i'r Unol Daleithiau a phriodi Mr. W. Edwin Williams, brodor o bentre' Brynrefail a oedd eisoes yn gweithio yno. Daeth yn ôl i Gymru droeon a mawr oedd ei phleser o gyfarfod â hen ffrindiau.

Bellach, mae'r cysylltiad ag ardal Brynrefail wedi ei lwyr dorri a diamau mai ychydig o'i theulu sydd ar ôl yn y De.

Fel athrawes, credai mewn disgyblaeth iach; yr oedd yn ddiymhongar a charedig. Rhoddodd wasanaeth diffuant i'r Ysgol fel y gall llawer o'i disgyblion dystio.


Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'i phriod ac â'i hunig fab John a'i deulu.

## EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



*Parti Pop buddugol –*
*'Fflamencos' Elidir ac Eryri*


Simneiau glân am bris rhesymol gan




*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*

**G. LLOYD**

**4 PLAS TIRION TERRACE, LLANRUG**

*Ffôn: Caernarfon 4781*

**MODURDY MENAI**



**FFORDD CAERNARFON**
**Y FELINHELI**
**Ffôn : Portdinorwic 882**
**Perchennog : J. Evans**

# DINORWIG

**CYMDEITHAS UNDEBOL LENYDDOL** — Yn y Ganolfan, nos Iau Ionawr 19 diddorwyd aelodau'r Gymdeithas gyda noson amrywiaethol dan ofal Mr. a Mrs. J. Haydn Jones a'u cyfeillion o Bangor. Cafwyd eitemau mewn canu, cwisiau a sgets. Llywyddwyd gan Mr. O.R. Williams, a thalwyd y diolchiadau gan Mrs. Betty Peris Roberts.

Nos Iau, Chwefror 9, yn y Ganolfan cafwyd darlith gan y Parch. J. Alun Roberts, Llandudno ar 'Chwalu'. 'Roedd yn llawn o hiwmor, a gwnaed aml bwynt gogleisiol gan y darlithydd. Llywyddwyd gan Mrs. Alice Griffith, a diolchwyd gan Mr. Glyn Thomas.

**O'R YSBYTY** — Da croesawu gartref wedi bod mewn gwahanol ysbytai, Mr. John E. Thomas, Bwlch Gwynt, o Ysbyty Bryn Seiont; Miss Annie Jones, 6 Bro Elidir o Ysbyty Môn ac Arfon; a Mrs. Laura Williams, Tanyfron o Ysbyty Dewi Sant, Bangor; Mrs. Alice Griffith, Tan y Bwlch, o Ysbyty Môn ac Arfon.

**CYFLENWAD DWR** — Er bod diffyg dŵr wedi bod mewn rhan o'r ardal yn ddiweddar, rhaid cydnabod bod y Bwrdd Dŵr Cenedlaethol wedi cyflawni rhan o'r gwaith. Mae y Cyngor Cymdeithasol wedi pwyso arnynt. Rhan fechan o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni, ond mae gwaith i gael ei wneud i Gronfa Terfyn ac hefyd mae'r Bwrdd Dŵr am amcangyfrif y gost o adnewyddu y pibellau i Fachwen.

**MUDIAD ADFER** — (Dawns) — Er y tywydd garw daeth criw da o bobl ifainc y fro i'r Ganolfan Gymdeithasol leol nos Wener, Chwefror 17 i ddawnsio yng nghwmni Disgo'r Llais. Diolch i'r hogia, Meirion, Kelvin a Trebor am drefnu'r cyfan. Sicrhawyd £10 tuag at Gronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon.

**DISGO'R GRAIG** — Fe aeth Meirion a Kelvin â'r offer disgo i Ganolfan Cenfaes Bethesda i gynnal dawns nos Sadwrn, Chwefror 11. Yn ôl yr adroddiadau cafwyd noson hynod o dda. Diolch i Carl ag Alwyn am gludo'r offer a'r hogia yno.

**TREFNU BWS MINI** — Mae'r aelodau am drefnu bws mini i fynd i'r ddawns a gynhelir yn Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda ar nos Wener, Mawrth 3. Bydd y grwpiau 'Tocyn Chwech' a 'Madog II' yn perfformio yno. Mae rhagolygon am noson dda. Os ydych eisiau mynd, cysylltwch â Meirion Thomas.

**LLYFR BRO 'Hiraeth y Chwarelwr'** — Deallwn fod ail argraffiad o'r llyfr ar gael yn awr yn y siopau. Ei bris yw 50c

**PLYGU'R ECO** — Mae'n braf gweld cymaint o'r rhai ifainc mor barod i wneud y gwaith da yma. Yn wir 'rydym yn cael dipyn o hwyl yn gwneud y gwaith gyda Iola yn cadw trefn arnom! Beth am gael mwy i ddod gyda ni ar y nos Iau olaf o bob mis.

**GŴYL BASG ADFER** — Erbyn hyn deallwn for Mudiad Adfer yn cynnal Gŵyl Basg y Mudiad yn Ninorwig eleni a hynny o Fawrth 30—Ebrill 1. Mae sawl gweithgaredd ddiwylliannol wedi ei threfnu a bydd croeso cynnes i bawb ymuno yn yr Ŵyl.


Cefnogwch ein Hysbysebwyr


## GAIR O BROFIAD



**Dyma stori gan Yvette Mumford merch 10 oed o Ddinorwig o'r hyn a ddigwyddodd iddi hi a'i ffrindiau'n ddiweddar. Gobeithio bod eu profiad yn gymorth i atal eraill rhag cael eu temtio i wneud yr un peth:**

Wrth ddod i fyny'r llwybr o Fachwen mi welais fod y dŵr yn y twll chwarel wedi rhewi ac mi wnaethom ni ddringo i lawr at y rhew. Adele aeth ar y rhew gyntaf ac wedyn, wrth afael mewn cangen mi es i. Wedyn mi ddaeth Andrea ac wedyn y cŵn. 'Roedd Tracy ofn dwad ar y rhew. Mi groesodd Andrea at goeden a dod yn ôl. Mi ofynnodd Adele a minna' "pwy sydd am fentro i'r ochr arall?" Aeth Tracy ar draws ac enill. Andrea aeth yn ail ac yna Adele a minna' efo'n gilydd. Mi redodd Andrea a Tracy yn ôl oherwydd eu bod wedi clywed y rhew yn torri. Mi redon ni i'r cyfeiriad arall ac mi ddechreuodd y rhew gracio ac mi ddringasom ni ar graig. Mi waeddodd Adele ar Andrea i alw'r cŵn yn ol a dyna ddigwyddodd. Gofynnodd Andrea "Ydych chi'n dwad?" ond 'doeddem ni ddim yn gallu symud oherwydd fod y rhew wedi cracio. Mi ddywedon ni wrthyn nhw i fynd i chwilio am help.

Rhedodd Andrea a Tracy i'r tŷ agosaf, Fron Goch. Ceisiodd y dyn ein helpu tra 'roedd ei wraig yn ffonio'r "Mountain Rescue". Pan ddaeth y "Mountain Rescue" mi ddringodd un dyn ar raff i lawr atom a'n helpu i'r top. Yna aeth dyn â ni i ambiwlans. 'Doedd dim byd yn mater arnom ni dim ond ein bod yn crynu oherwydd ein bod yn oer ac wedi dychryn. 'Roedd yn rhaid inni fynd i weld y doctor i Lanrug ac wedyn mi gawsom ni fynd adref yn yr ambiwlans. Ar ôl mynd adref mi gawsom ni ginio ac yna mi es i i'r gwely.

'Dwi'n meddwl ein bod ni wedi bod yn wirion i fynd lawr yna ac mae'n ddrwg gennym ni am y drafferth wnaethom ni achosi. 'Dydan ni byth am fynd i lawr yna eto."

**Tybed ydych chi'r plant sy'n darllen yr *Eco* wedi cael profiadau yr un mor gyffrous? Os ydych, cofiwch mae croeso i chwi anfon eich hanesion atom.**

## EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



*Kelvin Lewis, Deiniolen a Julie Clarke, Llanberis (Dau Gorn Gwlad yr Orsedd).*



*Parti Glynrhonwy yn cychwyn i Gaerdydd i ddathlu Gŵyl Dewi gyda Hywel Gwynfryn.*


**R.Hughes Jones a'r Mab**

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus — prisiau rhesymol

YN EISIAU
**Hen Lyfrau Cymraeg**
Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

**SIOP Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

## BRIWSION Y BRIFWYL

**Bu bron i'r Eisteddfod Genedlaethol fynd i ddifancoll yn ystod yr Ail Ryfel Byd.**

**Ond rhyfel neu beidio, penderfynodd criw bychan o selogion y Brifwyl ym 1940 na châi hynny ddigwydd, yn ôl llyfr sydd i'w gyhoeddi eleni ar gyfer Prifwyl Caernarfon a'r cylch y flwyddyn nesaf.**

'Roedd y Brifwyl i'w chynnal ym 1940 ym Mhen-y-bont, Morgannwg, 'a chyhoeddwyd y testunau. Ond dyfarnodd un o adrannau'r Llywodraeth na ellid cynnal yr ŵyl yno am resymau amddiffynnol rhyfel.

Ffurfiwyd pwyllgor brys bychan gyda hawl gweithredol i sicrhau parhad yr Eisteddfod yn ystod y rhyfel, a llanwodd y BBC y bwlch drwy gynnal Eisteddfod Radio o'r stiwdio yng Nghaerdydd y flwyddyn gyntaf.

Aed ati wedyn i gynnal 'Steddfodau bach drwy gydol y rhyfel – yn Hen Golwyn, Aberteifi, Bangor Llandybie a'r Rhos. Buont yn llwyddiant mawr fel y dywed yr awdur, Mr. Ernest Roberts, cynysgrifennydd Llys a Chyngor yr Eisteddfod.

Pigion yw'r llyfr, "Briwsion y Brifwyl", o hynt a helynt yr Eisteddfod yn ystod y can mlynedd diwethaf, ac yn arbennig ei chysylltiadau â Chaernarfon. Yno, meddai Ernest Roberts, yn Eisteddfod fawr 1880 y bu Syr Hugh Owen, yr ysgolhaig a'r addysgwr yn gysylltiedig â hi, y gosodwyd sylfeini'r Brifwyl fel y mae heddiw.

Cyfraniad Ernest Roberts i Brifwyl Caernarfon 1979 yw'r llyfr sydd i'w gyhoeddi gan y pwyllgor gwaith lleol ar gyfer seremoni'r cyhoeddi ym mis Gorffennaf. Yn ei gartref ym Mangor, eglurodd Mr. Roberts mai hanesion "diddorol a ffeithiol" am bobl a digwyddiadau'r Brifwyl yw cynnwys y llyfr.

Bydd yr Eisteddfod yn ymweld â Chaernarfon y flwyddyn nesaf am yr wythfed tro ers 1880, ac nid oes unman wedi blasu hanes yr ŵyl fwy na'r hen dre.

Ddwywaith erioed, meddai, y bu'r Eisteddfod Genedlaethol yn gysylltiedig ag achosion mewn llysoedd barn – a hynny ddeudro ar draul pobl Caernarfon.

Y tro cyntaf oedd ym 1885 pan ddygodd bardd lleol, a farnai ei fod wedi cael cam yn Eisteddfod Aberdâr, achos yn erbyn y swyddogion ... ac ennill ei iawn.

Yn fuan wedyn, ym 1890, clywyd achos Y Batwn Aur yn Llys Sirol Caernarfon. 'Roedd Côr Mawr y dre wedi ennill y batwn ddwywaith yn olynol ar lwyfanau'r Genedlaethol, ond y cwestiwn oedd pwy oedd piau'r wobr – y côr neu'r arweinydd. Crewyd y fath ddiddordeb yn yr achos fel y bu'n rhaid ei symud o Neuadd y Dre (y Guildhall) i'r Farchnad, meddai Mr. Roberts. A beth fu hanes y batwn aur wedi hynny? Dyna'r gyfrinach y mae'n ei datgelu yn ei lyfr.

# LLYFRAU

**AR WIB gan Emrys Evans.** *Cyhoeddwyd gan Lyfrau'r Faner, Y Bala. Pris: £2.50.*

Casgliad o storiau a geir yn y gyfrol hon am 'hen dref y chwareli' a'r cylch. Ynddynt portreadir ffordd o fyw sydd bellach wedi darfod. Tyfodd cymdeithas arbennig fel y datblygodd y chwareli. Fel yr edwinodd y chwareli newidiodd y gymdeithas hithau. Yn y storiau hyn ceir golwg ar fywyd oes y chwarel fel yr oeddem ni yn y fro hon yn ei gofio, gan ddod â ni hyd at heddiw.

### DDARLLEN'SOCH CHI HON?

**Gellwch fenthyca unrhyw un o'r llyfrau newydd yma o'ch llyfrgell leol neu'r llyfrgell deithiol.**

T.J. Davies – *Cyfle I Nabod.*
Ben T. Hopkins – *Rhos Helyg a Cherddi Eraill.*
Bobi Jones – *Pwy Laddodd Miss Wales?*
Idwal Jones – *Y Llofrudd Da*
John Gwilym Jones – *Crefft y Llenor*
Alan Llwyd – *Barddoniaeth Euros Bowen Cyf. 1. 1946–57.*
Ifor Rees (gol.) – *Dilyn Afon*
Trevor O. Roberts – *Ail Gerddi Llanowain*
J.B. Caerwyn Williams – *Ysgrifau Beirniadol X*
William Williams – *Hiraeth y Chwarelwr.*

### YMUNO Â THEATR CYMRU

Ymddiswyddodd John Ogwen yn ddiweddar o'i waith yn yr Adran Ddrama, Coleg y Brifysgol, Bangor, a bydd yn ymuno â Chwmni Theatr Cymru fis Gorffennaf nesaf.

Ar hyn o bryd fe'i gwelir bob pnawn Sul fel Twm Siôn Cati yng nghyfres deledu'r BBC *Hawkmoor.* Yn y Gwanwyn bydd mewn cyfres deledu arall a wneir gan HTV. Ar ôl hynny, bydd yn ymroi i waith llwyfan fel actor a lluniwr sgriptiau.

Gyda Chwmni Theatr Cymru ym 1968 y dechreuodd ei yrfa. Bryd hynny 'roedd yn un o dri yn ymlafnio i sefydlu'r syniad o theatr Gymraeg broffesiynol. Daeth yn adnabyddus a phoblogaidd ar y llwyfan, y radio, a'r teledu mewn nifer mawr o amrywiol gynhyrchion. Gyda'i wraig, Maureen Rhys, sy'n un o'r ardal, bu ar daith ddwywaith i'r Cwmni gyda'i gyfieithiad ei hun o *Alpha Beta,* ac yn *Dau werth Chwech,* rhaglen a olygwyd ganddo. Lluniodd hefyd adloniant ysgafn ar serch a phriodas *O Ardd Eden...* a berfformiwyd ar y llwyfan a'r radio gan y ddau.

"Bu newid a datblygu mawr ar Gwmni Theatr Cymru tros y deng mlynedd diwethaf", meddai, "ac mae derbyn cynnig i fod yn rhan o'i ddyfodol yn bleserus a chynhyrfus iawn".

## PREGETHWR, ARCHDDERWYDD, COFIADUR, ATHRO



*Anwen Jones gyda'r Parchedig E. Gwyndaf Evans.*

### SEREMONI GADEIRIO OLAF GWYNDAF

Mis Ebrill bydd y Parchedig E. Gwyndaf Evans yn ymddeol o'r ysgol, ac oherwydd hyn yr oedd peth tristwch yn perthyn i'r Seremoni Gadeirio. Ef oedd yn gyfrifol am y seremoni gadeirio gyntaf yn yr ysgol 20 mlynedd yn ôl. Anwen Jones, Penisarwaun enillodd y gadair eleni, ac yn rhyfedd iawn aeth y gadair gyntaf, hefyd i ferch o Benisarwaun, Meira Owen, Cae Corniog.

Dyma un o gerddi diweddaraf y meistr ei hunan. Mae'n bleser gan yr *Eco* ei chyhoeddi gan ddymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad.

GLANNAU MENAI

**Lannau Menai! Dy leiniau mwynion**
**Sydd lle cyferfydd Môn ac Arfon**
**Ar fin y dŵr; Rhufain a'i dewrion**
**Ynghwsg, a'r Castell a'i ddichellion;**
**Rhu'r cewri ar y cyrion, – safant hwy**
**– Mynyddoedd mwy na mynyddoedd Môn.**

**Mynych i lannau Menai**
**Y daw Mawrth yn nillad Mai;**
**Daw rhodres ceiliog ffesant**
**I goed ei blas gyda'i blant;**
**A hinion hael gwanwyn haf**
**Yn gwywo'r gwanwyn gaeaf.**

**Mwynach yw glannau Menai**
**A su eu mêl ym mis Mai**
**Na'r hedd a rydd hirddydd ha'**
**O brofi'r Costa Brafa;**
**A thra rhed llanw a thrai**
**Mwynach fydd glannau Menai.**

**Ar lannau Menai mae'r merlyn mynydd**
**Efô a'i hil o'u cynefin foelydd**
**Yn gefnog dalog ar borfa'r dolydd;**
**Yn yr haf daw yntau'n rhydd – i droi'n ôl,**
**Yn ôl fel gwennol i'w rug a'i weunydd.**

**I lannau Menai daw heulwen minòs**
**I ysu cariad gwefusau ceirios;**
**A rhyw un draw ar y rhos – mewn alaeth**
**Ond gwaeth na'r hiraeth, – ofer ei haros.**

**O lannau Menai – Goleuni Mwynaf**
**Y Fangre Dawel drwy'r niwl a welaf;**
**Am hud yr Afon fy mad a rwyfaf**
**Cyn rhoddi ffarwel i'r Gorwel Garwaf;**
**Tery'r Haul ar ffliwtiau'r Haf, – ac i'r Glyn**
**Daw'r Gorfoledd Gwyn yn dynn amdanaf.**

*E. Gwyndaf Evans.*

### GWERTHFAWROGI GWASANAETH

**Dodwyd gwin Champagne gan Reolwr Gwesty Brenhinol Fictoria Llanberis yn ddiweddar i'w staff, ac yn arbennig felly i ddau ohonynt. Anrhegodd Mr. Guto Parry, Rheolwr y Grŵp, Mr. a Mrs. David T. MacKean, 6 Maes Derlwyn, Llanberis, ar ran cyfarwyddwyr y cwmni, Benj Ackerley Holdings Ltd., a set deledu lliw. Gwnaed hyn mewn gwerthfawrogiad am eu gwasanaeth i'r gwesty am dros chwarter canrif. Diolchwyd i'r ddau am eu defosiwn gan Mr. Graeme Sutherland, Rheolwr, ar ran y staff.**


**E.W.&M.WILLIAMS**



**Y BECWS DEINIOLEN**

FFÔN : LLANBERIS 232

**BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !**

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN**

# PENISARWAUN

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o'r Sefydliad yn yr ysgol nos Fawrth, Ionawr 24. Llywyddwyd gan Mrs. Jones, Cae Corniog. Estynnwyd croeso i Mrs. Thomas o Gaernarfon fel V.C.O. a dwy o sefydliad Caernarfon i gyfri'r pleidleisiau. Dewiswyd Mrs. A. Jones yn llywydd a Mrs. Margaret Williams yn ysgrifennydd a Mrs. Percy Williams yn drysorydd. Darparwyd y te gan Mrs. Betty Hughes a diolchwyd iddi gan Mrs. N. Jones. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Nos Fercher, Chwefror 1 aeth tîm dartiau o sefydliad Penisarwaun i chwarae yn erbyn tîm dartiau sefydliad Caernarfon. Cafwyd noson ddifyr iawn er mai colli fu rhan Tîm Penisarwaun. Y chwaraewyr oedd Mrs. M. Davies, Mrs. G. Williams, Mrs. Eiriona Williams, Mrs. A. Jones a Mrs. Margaret Williams.

**GWAITH CYNGOR** – Da oedd gweld dechrau gwaith ar Stryd Fawr Deiniolen. Yn ôl adroddiad oddi wrth Gyngor Sir Gwynedd, mae'r cynghorydd Pat Larsen ar ddeall y bydd y gwaith wedi ei gwblhau cyn diwedd y mis nesaf.

**DIOLCHIADAU** – Dymuna Tony a Mary, Bryn Eglwys ddiolch i'w cymdogion ac yn wir i'w cyfeillion i gyd am eu caredigrwydd a'u cymwynasau iddynt yn eu profedigaeth o golli tad Tony.

**CLWB YR HEULWEN** – Bydd Clwb yr Heulwen yn ailddechrau pnawn Mercher, Mawrth 22.

**ENNILL CADAIR** – Llongyfarchiadau i Anwen Jones, Meillionydd am ennill Cadair Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Yr oedd pawb yn falch o'i champ a ddaeth ag anrhydedd i'r pentref.

**YMWELIAD Â CHWM BRÂN** – Da oedd clywed bod Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru yn recordio cerdd o eiddo Tony Elliott at wasanaeth 'Clywch y Beirdd' ar y ffôn. Bydd Tony yn teithio i Gwm Brân i recordio'r gerdd.

**PWYLLGOR LLEOL YR EISTEDDFOD** – Mae pob aelod o'r pwyllgor uchod yn barod i dderbyn cyfraniadau tuag at yr Eisteddfod. Yn sgil y cylchlythyr mae amryw wedi cyfrannu ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iddynt am eu haelioni. Gweler isod enwau aelodau'r pwyllgor: **Mr. Glyn Evans, Mr. Cynrig Hughes, Mrs. Carys Hughes, Miss Olwen Price, Mrs. Pat Larsen, Mr. Tony Elliott, Mr. Leslie Jones, Mrs. Eluned Jones, Mrs. Nant Roberts, Mr. Tegid Roberts, Mrs. Eluned Porter, Mrs. Katie Williams, Mrs. Percy Williams, Mrs. Eleanor Williams, Miss Ph. Ellis, Mrs. Delyth Williams.**

**MARW** – Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs. Elizabeth Williams, 3 Llys y Gwynt, Daeth o Lanrug i dai'r henoed ym Mhenisarwaun ychydig o flynyddoedd yn ôl.

**GWELLHAD BUAN** – Clywsom fod Mrs. A.M. Naylor, 1 Cefn Coed yn Ysbyty Eryri. Yr ydym yn dymuno gwellhad buan iddi.

# BRYN REFAIL

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL** – Yng nghyfarfod mis Chwefror, treuliwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr. Henry Lloyd Owen, Rhosbodrual. 'Natur' oedd ei destun. Ymdriniodd yn gelfydd â'i bwnc gan adrodd llawer o'i brofiadau yn ymwneud â bywyd cefn gwlad. Diolchwyd iddo gan Mr. Elfed Roberts a pharatowyd lluniaeth gan Mrs. Betty Owen a Mr. Islwyn Williams. Enillwyd gwobr y noson gan Mr. G.W. Williams. Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Plas Maenan ar Fawrth 2il a'r wraig wadd fydd Mrs. Eigra Lewis Roberts, Dolwyddelan.

**YN YR YSBYTY** – Dymunwn wellhad buan i'r canlynol sydd mewn ysbytai: Mrs. Rhian Jones, 3 Trem Eilian, Mrs. Katie Jones, Adwy'r Dŵr a Mrs. Sheila Roberts, Llwyn Helyg.

**PROFEDIGAETH** – Ychydig wythnosau'n ôl yr oeddym yn cydymdeimlo â Mrs. Dilys Jones, Cytir ym marwolaeth ei brawd. Blin iawn gennym yw datgan cydymdeimlad â hi unwaith yn rhagor ar farwolaeth ei modryb, Mrs. Jennie Hall. Wedi byw am gyfnod o'r ardal, dychwelodd Mrs. Hall i fyw gyda'i nith yn y Cytir rai blynyddoedd yn ôl lle cafodd ofal tyner ac arbennig iawn a chyrraedd oedran teg o saith a phedwar ugain. Yr oedd yn wraig siriol a phob amser yn felys ei sgwrs, a chwith yw ei cholli o'n plith.

**AR Y RADIO** – Cymerodd Mrs. Nellie Williams, Glanffrwd a Mr. Meredydd Foulkes, Brynderw ran yn y rhaglen wythnosol 'Rhwng Gŵyl a Gwaith', nos Sul, Chwefror 5ed. Bu'r ddau yn adrodd eu hatgofion am y bardd R. Williams Parry pan oedd yn athro ym Mrynrefail yn yr Ysgol Ramadeg ac yn lletya ar y pryd yn ffermdy Brynderw.

**CLWB PEDWAR UGAIN** – Fel rhan o weithgareddau'r Clwb, cafwyd noson adloniadol gyda disco i ddathlu Gŵyl Ffolant yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Ar ddiwedd y noson cafwyd gemau amrywiol gyda gwobrwyon.

**Enillwyr wythnosol y Clwb: 21.1.78:** 1. Barbara Heatherly, Bryn Madog; 2. Helen Roberts, Llwyncoed Bach; 3. Geraint Morris, Dinorwic House; **28.1.78:** 1. Pat Jones, Cae Coch; 2. Bertie Roberts, Llwyncoed Bach; 3. Elwyn Jones, 1 Trem Eilian; **4.2.78:** 1. Ada Jones, Ty'n Twll; 2. Owie Roberts, Llwyn Helyg; 3. Phyllis Jones, Gors. **11.2.78:** 1. Eifion Roberts, 8 Trem Eilian; 2. L.P. Williams, Godre'r Coed; 3. Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian. **18.2.78:** 1. Eirianwen Evans, 6 Trem Eilian; 2. Elsie Roberts, 9 Trem Eilian; 3. Helen Jones, 5 Trem Eilian.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cyfarfu'r gangen nos Iau, Chwefror 16. Cafwyd sgwrs a dangoswyd lluniau o Gwm Dyli gan Mr. Islwyn L. Jones, Bethel. Mrs. Jennie Hughes a Mrs. Olwen Jones oedd y gwestwragedd.

**CLWB Y MAMAU** – Nos Iau, Chwefror 9, cafwyd cwis dan ofal Mrs. Moira Ellis, Gweledfa. Darparwyd y te gan Mrs. Jean Jones a Mrs. Sheila Roberts. Trefnir Noson Goffi i'w chynnal ddiwedd mis Mawrth.

**EISTEDDFOD CAERNARFON 1979** – Nos Fercher, Ionawr 25, mewn Cyfarfod Cyhoeddus yn Festri'r Capel etholwyd y swyddogion canlynol i Bwyllgor Apêl Lleol Cronfa Eisteddfod Caernarfon 1979: Llywydd: Mr. Kenneth Jones, Cae Coch; Ysgrifennydd: Mr. David G. Ellis, Gweledfa; Trysorydd: Mr. Islwyn Williams, Godre'r Coed. Yn bresennol o'r Pwyllgor Cyllid yr oedd Mr. Iolo Llywelyn, Llanrug i'n hysbysu mai nod yr ardal yw £600. Mewn pwyllgor pellach, penderfynwyd rhannu'r nod o £600 yn £40 i'w godi yn fisol trwy wahanol weithgareddau. I gychwyn y gronfa, trefnwyd i anfon i bob cymdeithas a chlwb yn y pentref am gyfraniad. Da yw datgan fod y gronfa ar hyn o bryd yn £130, drwy ymateb rhagorol rhai o'r cymdeithasau. Trefnir raffl ar gyfer mis Mawrth.

## EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



*Rhai o'r ymgeiswyr yn y gystadleuaeth offerynnau heblaw piano*

## ELIN OWEN Y MANGL

**Gwraig fechan, gron brysur oedd Elin Owen. Yn weddw yr ydwyf fi yn ei chofio, a hynny gryn dipyn dros hanner can mlynedd yn ôl.**

Annibynwraig selog wrth ras, ac iddi ddwy ferch; Elin, yn dal a heini, a Jane oedd a'i haelodau yn hollol ddiymadferth, nes ei bod yn gwbl analluog i wneud dim gwaith ar wahân i wneud negesau i'w mam, a throi y mangl mawr *dwbl-hand* gydag Elin ei chwaer. Tymer fel cacwn gan Jane.

Fel y tybier oddi wrth y teitl uchod, Elin Owen oedd "Laundry" y pentref yn "cymryd golchi" teuluoedd lawer.

Adeilad bychan oedd yn gyfochrog â'r Newborough oedd y "Landri", ac yn y llain cyfagos y byddai dillad y pentref yn chwifio yn y gwynt.

'Roedd yno leiniau di-ri, ac ar ddyddiau braf, 'roeddynt yn llawn o ddilladau o bob llun a lliw – buasai baneri'r Olympics yn edrych yn ddwl iawn o'u cymharu â lliwiau leiniau Elin.

Ar wahân i fod yn berchennog y "Landri", Elin hefyd oedd "Mid-wife" y pentref, cyn dyfod y weinyddes ranbarthol.

Ni chafodd fawr o addysg – os rhywfaint yn wir – a dim hyfforddiant nyrsio o gwbl, ond fe syrthiodd i'r gwaith yn rhyfeddol.

Yr oedd yr annwyl Dr. John Roberts, Llanberis, yn meddwl y byd ohoni, a byddai Elin yn bresennol bron ar bob genedigaeth yn y cylch, a'r ddedfryd bob amser fyddai "y babi noblia welais i 'rioed".

Lawer gwaith y clywid Elin, yn oriau mân y bore, yn clocsio drwy'r pentref – rhywun "yn disgwyl" yn rhywle.

Yn ei chartref bach taclus y byddai y "Relieving Office" – y Livin, chwedl Elin – Mr. J.R. Jones, Bryn Mair, Llanrug, yn cyfarfod i ddosbarthu Cardod Plwyf i'r tlawd – coron y mis, os cofiaf yn iawn.

Fydd yna ddim cymeriad i'r peiriannu golchi a'r launderettes a gymerodd ei lle, ond mae Elin yn gorwedd yn dawel ym mynwent Llanrug ers dros hanner can mlynedd bellach, yn fawr ac annwyl iawn ei pharch gan bawb a'i cofia.

W. Morris Jones, Hafod, Fairlands Crescent, Rhuddlan, Clwyd.

## Y BLAID LAFUR

Bu Mr. Tom Ellis, A.S. dros Wrecsam a Mrs. Ellis, a Mr. Merfyn Hughes, darpar-ymgeisydd Llafur Etholaeth Caernarfon a Mrs. Hughes yn westeion mewn cyfarfod yn cynnwys cinio a dawns yng Ngwesty Royal Victoria, Llanberis.

Cynlluniwyd y noson gan Gangen Dyffryn Peris. Y Cynghorydd Francis Jones oedd y llywydd.

Yn ei araith ar ôl y cinio, datganodd Mr. Ellis ei gred fod gwir radicaliaeth Gymreig i'w chael yn ardaloedd y chwareli, ac 'roedd yn gobeithio y byddai Llafur yn ad-ennill y sedd cyn bo hir.

Mynegodd Mr. Hughes ei bleser o glywed am yr anrhydedd a ddaeth i Syr Elwyn Jones o Fangor ac i Mr. Emyr Thomas o Gaernarfon yn ddiweddar.

Diolchodd Mr. Cledwyn Williams, Cadeirydd y Blaid Lafur Etholaeth Caernarfon, i bawb a oedd wedi helpu gwneud y noson mor llwyddiannus.

Bu'r grŵp 'The Islanders' yn diddanu'r cwmni am weddill y noson.

'Roedd Mr. Peter Clarke o'r A.U.E.W. a Mrs. Dilys Jones yn gyfrifol am y trefniadau.


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FRO!***
**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus**
**Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta**
**Archebion ar gyfer y rhewgist**
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**

## COFIO MR. TOM EVANS, LLOC, LLANRUG

gan W.O. Roberts

**COLLED ddirfawr i ardal Llanrug, (ac yn wir i gylch llawer ehangach)ydoedd marw annisgwyl y gŵr siriol hwn nos Sul, Ionawr 29 ac yntau ar ei ffordd i'r oedfa yn y Capel Mawr.**

Un o feibion sir Fflint ydoedd – genedigol o'r un pentref â'r tenor poblogaidd David Lloyd – Trelogan. Wedi gadael ysgol prentisiwyd ef fel groser gyda Mr. Vickers Llanasa. Bu'n gwasanaethu gyda gwahanol gwmniau yn Lerpwl a Gogledd Cymru am rai blynyddoedd. Yn 1933 priododd â Mrs. M.E. Roberts, Talybont, Dyffryn Conwy, a bu'r briodas yn batrwm o gydweithio dedwydd i'r diwedd. Yn 1934 ymsefydlodd y ddau mewn busnes eu hunain yn y Llythyrdy Lloc, ger Treffynnon, lle y treuliasant dros 30 mlynedd yn llawn gwaith, ac yn uchel eu parch hyd eu hymddeoliad ddeuddeng mlynedd yn ôl, pryd y symudasant i Lanrug.




*Dyma lun ohono'n ŵr ifanc tu allan i ddrws y siop.*

Wrth gofio Tom Evans ni allwn lai na'i ddisgrifio fel 'gweithiwr di-fefl.' Pa beth bynnag a wnâi, fe'i gwnâi â'i holl egni. Gwasanaethodd ei gapel yn ei fro enedigol pan oedd yn ifanc iawn. Rhoddodd wasanaeth teilwng i'r Eglwys Fethodistaidd yn Lloc fel Blaenor, a bu am flynyddoedd yn Arolygwr Cylcholaeth Treffynnon. Gwasanaethodd hefyd ar wahanol gynghorau a phwyllgorau yn yr ardal. Yr oedd bob amser wrth ei fodd yn gwasanaethu ei gyd-ddynion mewn byd ac eglwys a gwnâi hynny gyda graen.

Ar ei ddyfodiad i Lanrug, ymdaflodd â'i holl galon i fywyd yr ardal. Ymaelododd yn Eglwys y Capel Mawr gan gymryd ei ran yn naturiol yn holl waith yr eglwys o'r dechrau. Yn fuan wedi iddo ddod atom ar sail ei barodrwydd a'i allu i wasanaethu dewisodd yr eglwys ef yn flaenor. Ni allai un eglwys gael arweinydd mwy ymroddgar nag a gafodd Capel Mawr Llanrug yn Mr. Tom Evans. Gwasanaethodd fel Cyhoeddwr o Sul i Sul, ac ef oedd Ysgrifennydd yr Eglwys ers rhai blynyddoedd. Fe'i galwyd adref ac yntau yn rhinwedd ei swydd fel ysgrifennydd bron â chwblhau gwaith o ddwyn allan Adroddiad yr Eglwys am 1977.

Yr oedd ganddo feddwl mawr o'r Ysgol Sul, lle'r oedd yn athro ymroddgar ac yn arolygwr.

Gwelodd Cyfarfod Dosbarth Eglwysi Presbyteraidd Cylch Llanberis ei werth gan ei ddewis yn Ysgrifennydd a rhoddodd wasanaeth teilwng i gylch ehangach Henaduriaeth Arfon.

Er mai crefydd a gafodd y lle blaenaf ym mywyd Tom Evans bu'n hynod o weithgar mewn cylchoedd eraill yn yr ardal. Yr oedd yn "ddyn ardal" da. Fel pob Cristion go iawn yr oedd ganddo gonsyrn am bob agwedd ar fywyd ei gyd-ddynion. Yr oedd yn aelod defnyddiol o Gyngor Cymdeithas Llanrug ac yn Gyn-gadeirydd o'r cyngor. Un o'r pethau eraill a roddodd fwynhad iddo oedd hyrwyddo llwyddiant yr Ysgol Feithrin yn yr ardal. Ymddiddorai hefyd yn *Eco'r Wyddfa* fel rhan o fywyd ei ardal. Fel Dosbarthwr ymhyfrydai yn y ffaith ei fod yn cael y fraint o anfon ein papur bro i bellafoedd y ddaear, a thrwy hynny yn cael rhan er hyrwyddo ei lwyddiant.

Bu ei angladd ddydd Mercher, Chwefror 1. Cafwyd gwasanaethau yn ei gartref ac yn Amlosgfa Bangor o dan arweiniad ei weinidog. Daeth llu o gyfeillion o Glwyd a Gwynedd i dalu'r gymwynas olaf i un y teimlir ei golli gan lawer am hir amser. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs. Evans ei weddw, a'i fab Mr. Dewi Evans, a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

## EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



*Capteiniaid Eilian – y tŷ buddugol. Delyth Williams o Gwm-y-glo a Gwilym Roberts o Lanberis.*

# NANT PERIS

**YMDDIHEURIAD** – Y mae'n wir ddrwg gennyf i mi adael allan o rifyn diwethaf yr Eco fod plant yr ardal a'r mamau ifanc wedi cael treulio prynhawn difyr iawn yn Theatr Gwynedd Bangor yn gweld y pantomeim Cinderella. Mwynhaodd y plant a'r mamau eu hunain yn ardderchog. Talwyd costau y plant gyda chyfran o elw y Carnifal ac yr ydym yn wir ddiolchgar i bawb a wnaeth y trip i'r plant yn bosibl, ac yn enwedig i Mrs. Brenda Roberts, Glanrafon am ei gwaith. Gwnaeth ymdrech lew i gael tocynnau i'r pantomeim Cymraeg i'r plant ond er ei holl ddycnwch methu a wnaeth. Diolch yn fawr iawn ar ran y plant a'r mamau i Brenda.

**CYNLLUN TRYDAN DINORWIG** – Nos Lun, 13 Chwefror daeth Mr. W. Williams sydd ar staff y C.E.G.B. i Festri Rehoboth i ddangos sleidiau, ac i egluro'r gwaith a wneir yn y chwarel ac yn y Nant ynglŷn â chynllun Trydan Dinorwig. Cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol yng nghwmni Mr. Williams a diolchwn iddo am ddod yma i egluro amryw o bwyntiau inni. Da oedd gweld cynifer o'r ardalwyr wedi dod i wrando ac i holi. Ar hanner amser darparwyd cwpaned o goffi gan y brodyr a'r elw yn mynd at gronfa leol yr Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979.

**I'R YSBYTY** – Drwg iawn gennym fod Miss Mary Roberts, 4 Glanrafon wedi ei chymryd i'r ysbyty ym Mangor ond da gennym ddeall ei bod wedi setlo i lawr yn iawn ac y cawn ei chroesawu adref yn fuan iawn, wedi llwyr wella. Deallwn mai yn Ysbyty Dewi Sant ym Mangor y mae Miss Roberts; brysiwch fendio!

**LLONGYFARCHION** – i Mr. Robert F. Thomas, mab hynaf Mr. a Mrs. Elfed Thomas, 9 Glanrafon ar gael swydd ym Mostyn. Bydd hyn yn golygu y bydd Mr. a Mrs. Robert F. Thomas yn dychwelyd i'r gogledd ar ôl treulio rhai blynyddoedd yn y de.

**FFILMIAU** – Nos Lun, 27 Chwefror dangoswyd y ddwy ffilm, 'Hen dynnwr lluniau' a 'Noson Lawen' gan Wil Aaron, yn Festri Rehoboth, er budd cronfa'r Eisteddfod Genedlaethol eto. Tro'r chwiorydd oedd paratoi'r coffi yn y cyfarfod yma a chawsom noson hynod o ddifyr a chynulliad da.

Ac fel rhag hysbysiad, ar 20 Mawrth bydd Parti Merched Ifanc Carmel yma yn ein diddanu drwy ganu, a thipyn o hwyl. Yr ydym yn sicr o gael noson dda ganddynt hwythau. Cofiwch y dyddiad, nos Lun, 20 Mawrth yn Festri Rehoboth. Fel y dywedwyd o'r blaen mae ein targed yn y Nant yn £300 a gofynnir i ni anfon arian bob mis i'r Swyddfa. Yr ydym eisoes wedi anfon £50.50 a bydd Mri. J.W. Elis, 8 Glanrafon, Ken Jones, 10 Glanrafon a J.T. Roberts, Llys Awel yn ddiolchgar iawn am bob rhodd i'r Gronfa Leol. Rhoddir derbynneb swyddogol am bob rhodd o £3 a throsodd a bydd enw'r cyfrannwr ar Raglen y Dydd yr Eisteddfod.

**CROESO ADREF** – Balch ydym o weld Mr. a Mrs. O.W. Humphreys, Gwastadnant yn ôl yn ein plith ar ôl treulio tri mis o wyliau yn Awstralia.

# CEUNANT

**O'R YSBYTY** – 'Rydym yn falch o groesawu Mrs. Williams, Tŷ Isaf adre o'r ysbyty. Mae ar hyn o bryd yn aros gyda'i merch yn Prysgol. Dymunwn iddi adferiad llwyr a buan.

# TAN-Y-COED

**EISTEDDFOD** – Llongyfarchiadau i blant yr ardal hon o Ysgol Brynrefail am eu cyfraniad a'u llwyddiant yn Eisteddfod flynyddol yr ysgol eleni. Ann Jones, Pant Clyd – Gwnïo; Linda Jones, Pant Clyd – Côr Deulais, Côr Adrodd a Chôr Cerdd Dant; Enid Wynne, Llety Llwyd – Côr; Dylan Bryn Jones, 3 Tai Tan-y-Coed – Parti Cân Fodern Ysgafn.

**DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL** – Hefyd ymysg plant ysgol Brynrefail, Llanrug a gymerodd ran yn y gwasanaeth ar y teledu gwelwyd Ann, Linda, Enid a Margaret. Mawr fu'r canmol ar y gwasanaeth hwn.

**GWELLHAD** – Croeso adre o'r ysbyty i Mrs. Blodwen Hughes, 1 Tai Trefor. Da deall fod Mrs. Hughes yn gwella'n foddhaol. Hefyd i Mr. Jack Williams a gipiwyd i'r ysbyty'n sydyn, ond sy'n awr adre'n ôl ac yn gwella.

# YM MYD MODURO

Oherwydd fod gofynion yr M.O.T wedi mynd yn fwy manwl a llym, mae'r siawns i'ch modur fethu'r prawf yn llawer uwch. Mae'n syniad da felly i gael archwiliad ar eich car rhyw fis cyn y prawf. Os digwydd fod darn arbennig yn eisiau, rhydd hyn gyfle i ŵr y garej ofalu ei gael ar eich cyfer, a gall hyn arbed gorfod cadw eich modur oddi ar y ffordd am gyfnod.

Mewn arolwg diweddar (1977) a wnaed gan Gwmni Moduron, ar ddiogelwch 70,000 o foduron, gwelwyd fod, ar gyfartaledd, chwe diffyg ar bob car. Mae'n arswydus i feddwl fod 40% o'r rhain yn ymwneud â'r teiars, yn cynnwys pwysedd anghywir.

Beth am i bawb ohonom roi mwy o sylw i'r "pethau bychain" sy'n holl bwysig i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel ym 1978?


STORFA
Mace
S.&E.
Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD

# CHWARAEON

## Wyth Cap i Gymru

**Yn rhifyn Mehefin '77 o'r Eco, mewn braslun o hanes Clwb Pêl-droed Llanberis fe gofiwch i mi gyfeirio at y diweddar Dr. R.H. Mills Roberts, gan grybwyll ei gyfraniad i'r Clwb yn y dyddiau cynnar hynny. Sylweddolais ar y pryd nad chwaraewr cyffredin mo hwn, a bod profiad llawer helaethach ganddo o'r gêm na'r mwyafrif o'i gyd-chwaraewyr. Mae'r hen ddarlun a welir isod, a'r hanes amdano, drwy garedigrwydd y Parchedig Herbert Thomas, Llannor, yn cadarnhau fod hwn yn wir yn un o sêr disgleiriaf pêldroed Prydain gyfan yn ei gyfnod.**

**Darlun ydi o o un o'r timau lleol fyddai'n chwarae yn y gystadleuaeth flynyddol ar gae Llanberis ddiwedd bob tymor, ac fe'i tynnwyd rhywdro tua 1906.**



Y dyn mawr mewn crys gwyn sy'n sefyll ar y chwith ar ben y step a'r cap ar ei ben oedd y Doctor, ac wrth ei ysgwydd, ychydig y tu ôl iddo mae ei bartner, y Dr. Morris.

Yn y llun hefyd mae tri clerc o Swyddfa'r Chwarel, Gough Owen, Bryndu, Bertie Williams, Muriau Gwynion a Jones, Heulwen. Y dyn y gôt law a'r het ar ei ben oedd C. Madoc Jones, athro yn ysgol Brynrefail, – aeth yn ei flaen i fod yn brifathro Ysgol John Bright, Llandudno. Ni wyddys pwy arall sydd yn y llun. Oes rhywun all ein hysbysu? Ond i ddod yn ôl at y Doctor. Brodor o Lan Ffestiniog ydoedd. Fe'i penodwyd i ofalaeth ysbyty'r chwarel tua 1893 ac yn Hafoty, Dinorwig y gwnaeth ei gartref cyntaf yn yr ardal. Symudodd oddi yno i fyw yn y Grosvenor yn Llanberis.

Yn nhîm pêl-droed Preston North End neu 'Proud Preston' fel y'i gelwid yr adeg honno y gwnaeth ei enw. Hwn yn amlwg oedd tîm gorau Cynghrair Lloegr ar y pryd a bu Dr. Mills yn cadw gôl iddynt am dymhorau lawer. Colli o 2 gôl i 1 yn ffeinal Cwpan Lloegr yn erbyn West Brom fu eu hanes yn 1888, ac ennill y Cwpan y tymor dilynol yn erbyn Wolverhampton Wanderers o 3 gôl i ddim. Mae'r ffaith na sgoriwyd yn eu herbyn mewn unrhyw gêm gwpan y tymor hwnnw na chwaith golli yr un gêm gynghrair yn fesur o allu'r golgeidwad.

Enillodd hefyd wyth cap i Gymru rhwng 1885 ac 1892, cyn rhoi'r gorau i'r "Big time" ac ymuno â thîm Llanberis.

Mae hanesion lu yn aros yn yr ardal amdano ac nid yn unig am ei fedrusrwydd ar y cae pêl-droed nac ychwaith yn yr ysbyty. Cofir am yr haf gwlyb hwnnw, tra'n byw yn Ninorwig, iddo feiddio cario ei wair ar y Sul, – pechod anfaddeuol yn yr oes honno.

Gadawodd Lanberis ar ddechrau'r rhyfel yn 1914 ac yno y mae stori'r meddyg rhyfeddol yn gorffen cyn belled ag y mae'r ardal hon yn y cwestiwn.

## TÎM DAN 18 OED LLANBERIS

**Chwefror 25 (yn y bore)**
**Llangefni 3 Llanberis 4**

Bu bron i Langefni atal ymdaith yr hogia tuag at rownd derfynol Cwpan Pant y Fedwen am y trydydd tymor, a hwy aeth ar y blaen ym munud cynta'r gêm gan ychwanegu at eu sgôr yn fuan wedyn. 'Doedd dim torri calon ar yr hogia serch hynny, ac erbyn yr egwyl daeth Gareth Williams a Bryn Hughes â hwy yn gyfartal. Llanberis aeth ar y blaen yn yr ail hanner, ac er i Langefni ddod yn gyfartal eto, ac i A. Lambrecht yn gôl Llanberis gael ei anafu a gorfod iddynt chwarae a deng dyn, llwyddodd Gwyndaf Jones i sicrhau eu lle yn y rownd nesaf.

**Chwefror 25 (Yn y prynhawn)**
**Cwpan Gogledd Cymru**
**Benllech 7 Llanberis 0**

Na – 'does dim camgymeriad yn y dyddiad, 'roedd yn rhaid chwarae'r ddwy gêm cyn diwedd y mis, a dyma'r cyfle cyntaf a gynigwyd iddynt gan y tywydd.

'Does dim rhyfedd felly iddynt golli mor drwm, ond trueni fod pethau wedi troi allan fel y gwnaethant gan fod siawns da y byddent wedi curo Benllech o dan amgylchiadau gwahanol.

## Pêl-droed

Y tywydd fu'n fuddugol y mis diwethaf yn hanes ein timau pêl-droed, methwyd â chwarae ond un gêm Gynghrair – Llanberis yn colli'n annisgwyl i hogiau'r Brifysgol ym Mangor. Gemau Cwpan fu'n dwyn eu sylw y Sadwrn diwethaf, ac mae'n amlwg yn barod fod cyfnod prysur yn wynebu'r ddau dîm cyn diwedd y tymor, gorfod chwarae dwy neu dair gêm yr wythnos.

Dyma fel y mae tabl y Gynghrair yn ymddangos ar hyn o bryd, a Llanrug a Llanberis ymhell ar y blaen.

| | Ch | E | C | Cyf | OB | YE | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llanrug** | 16 | 14 | 2 | 0 | 64 | 14 | Pwyntiau: 30 |
| **Llanberis** | 17 | 13 | 3 | 1 | 65 | 21 | Pwyntiau: 29 |
| **Talysarn** | 21 | 10 | 4 | 7 | 48 | 47 | Pwyntiau: 24 |

**Chwefror 25: Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru 4ydd Rownd.**

**Yr Wyddgrug 1 Llanberis 1**

Gêm galed iawn, a chefnwyr Llanberis yn ennill marciau llawn am sicrhau ail chwarae yn Llanberis. 'Roedd hogia tal, cryf yn nhîm yr Wyddgrug, a dealltwrwydd da rhyngddynt. Ond llwyddodd yr amddiffynfa i'w cadw allan hyd at chwarter awr cyn y diwedd.

Er fod colli Dick Parry, sydd wedi ei anafu, yn amlwg yng nghanol y cae, ni ildiodd yr hogia, a daeth Selwyn Allsup â hwy yn gyfartal, gan rwydo oddi wrth gic rydd gan Islwyn Jones.

**Chwefror 25**
**Cwpan Iau Gogledd Cymru**
**5ed Rownd**
**Llanrug 2 Abergele 2**

Gêm gyntaf Llanrug ers Ionawr 24, a'r gêm gwpan yn cael ei chwarae ar y trydydd cynnig, ac ni chawsant fawr o amser i setlo. O fewn 3 munud 'roedd Abergele ar y blaen gyda gôl gan M. Snelson ac o fewn 2 funud 'roedd y sgôr yn gyfartal eto – B. Pitts yn sgorio i Lanrug.

Dechrau cyffrous i gêm a barhaodd yn gyflym a llawn cyffro tan y diwedd. 'Roedd blaenwyr Abergele yn gyflym ar y bêl, a chael a chael yn aml gafodd amddiffynfa Llanrug i'w rhwystro rhag sgorio – ond methu a wnaethant ychydig cyn yr egwyl —symudiad da ar hyd asgell dde Abergele; y bêl yn cael ei chroesi'n isel, a'r hen chwaraewr profiadol R. Romain yn taro'r bêl i'r rhwyd i roi Abergele ar y blaen o 2–1.

Yn yr ail hanner, Llanrug oedd y tîm gorau ac amddiffynfa Abergele yn cael gwaith caled i gadw blaenwyr Llanrug rhag torri trwodd, ond 'doedd gan eu gôlgeidwad ddim siawns i ddal ergyd galed gan P. Roberts i ddod â'r sgôr yn gyfartal. Bydd yr ail chwarae yn Abergele mewn pythefnos.

## Rygbi Ysgol Brynrefail

**PARHAU mae brwdfrydedd hogia'r bêl hirgron, ac ar waethaf rhew ac eira Chwefror llwyddasant i chwarae dwy gêm. Yng Ngholeg y Santes Fair, Rhos-on-Sea fu'r gyntaf, a'r canlyniad yn un calonogol dros ben, gêm gyfartal, 10 pwynt yr un. Gwelwyd dau gais da gan Tony Jones a Wyn Evans, a llwyddodd Owain Griffiths i drosi un ohonynt.**

Siomedig fu canlyniad yr ail gêm, yn erbyn tîm o Ysgol Dyffryn Ogwen, oedd yn cynnwys o leiaf pump sy'n chwarae i dîm y pentref, ond mewn cystadleuaeth a chwaraewyr o'r safon yma y mae'r gobaith gorau i wella, ac mae'n glod iddynt na fu'r sgôr o 0–16 yn gyfrwng i leddfu eu brwdfrydedd.



*Tîm Rygbi'r Ysgol, a'u hyfforddwyr, Mr. Howyn Jones a Mr. Iwan Williams.*

TÎM Y GYNGHRAIR

Mae Howyn Jones, Rheolwr Tîm Llanrug, wedi ei ddewis i reoli tîm y Gynghrair ar gyfer y gemau Cwpan Tucker eleni. Dewisodd 26 o chwaraewyr gan gynnwys 8 o Lanrug a 4 o Lanberis. O dîm Llanrug mae N. Hardwidge; K. Jones; P. Roberts; L. Padmore; G. Owen; D. Owen; B. Pitts a Hefin Jones.

Iwan Evans; R. Harding; Gwilym Williams a Gareth Williams sy'n cynrychioli Llanberis.

Bydd Howyn, ar ôl ymarfer efo'r 26 ddwywaith neu dair, yn dewis carfan o 13 ar gyfer y gystadleuaeth.